Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants




# Gwerthusiad Cymeriad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

## Ardal Gadwraeth Heol Awst

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 1 |
| 1.0 Cyflwyniad | 2 |
| 2.0 Deall y Safle | 5 |
| 3.0 Datblygiad Hanesyddol | 7 |
| 4.0 Dadansoddiad Gofodol | 12 |
| 7.0 Arwyddocâd | 34 |
| 8.0 Problemau, Bygythiadau a Chynigion Rheoli | 38 |
| 9.0 Cyfleoedd | 57 |
| Atodiadau | 58 |
| Atodiad I: Llyfryddiaeth | 59 |
| Atodiad II: Geirfa | 60 |
| Atodiad III: Mapiau | 62 |
| Atodiad IV: Adolygu'r Ffiniau | 68 |
| Atodiad V: Crynodeb o'r Ddeddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau cysylltiedig | 73 |


Os hoffech chi gael rhagor o gyngor neu wybodaeth cysylltwch â Thîm Treftadaeth Adeiledig Cyngor Sir Gâr:


BHConsultations@carmarthenshire.gov.uk



*Cyfieithiwyd yr adroddiad hwn gan drydydd parti, ac nid oes gan Donald Insall Associates unrhyw gyfrifoldeb drosto.*



Mae'r adroddiad hwn a'r holl hawliau eiddo deallusol ynddo ac yn deillio ohono yn eiddo i neu dan drwydded i Donald Insall Associates neu'r cleient. Ni chaniateir atgynhyfrchu y cyfan nac unrhyw ran o'r adroddiad hwn, nac unrhyw ddarluniad, cynllun, dogfen arall nac unrhyw wybodaeth a gynhwysir ynddo mewn unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Donald Insall Associates neu'r cleient, fel bo'n berthnasol. Ni chaiff y deunydd lle bo'r hawliau eiddo deallusol wedi'u trwyddedug i DIA neu'r cleient a bod hawliau o'r fath yn perthyn i drydydd partïon ei gyhoeddi neu ei atgynhyrchu o gwbl mewn unrhyw ffurf, a dylid cyflwyno unrhyw gais am ganiatâd i ddefnyddio unrhyw ddeunydd o'r fath i'w gyhoeddi neu'i atgynhyrchu yn uniongyrchol i berchennog yr hawliau eiddo deallusol hynny


UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

CANOLFAN TYWI
TYWI CENTRE

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Crynodeb Gweithredol

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Heol Awst ym 1971 ac adolygwyd y dynodiad ym 1995. Nawr mae'n briodol ac yn angenrheidiol ystyried arwyddocâd yr ardal hon, ystyried a yw'r ffiniau sy'n bodoli yn briodol a chynhyrchu dogfen werthuso gadarn a fydd yn llywio rheoli, cadwraeth a gwella'r ardal yn y dyfodol. Dyna nod y ddogfen hon.

Mae sawl haen i hanes yr ardal, sy'n deillio o'r Rhufeiniaid yn meddiannu'r dref hyd at ei datblygiad yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r esblygiad hanesyddol hwn wedi gadael gwaddol o gymeriad a diddordeb pensaernïol y byddai'n ddymunol ei gadw neu ei gyfoethogi. Ystyrir bod yr isod yn nodweddion arwyddocaol allweddol yr ardal:

1. Dwy heneb gofrestredig o arwyddocâd cenedlaethol, sef y Brodyrdy a'r Gwrthgloddiau
2. Cyfres o adeiladau tirnod o bwys lleol a chenedlaethol
3. Enghreifftiau o leiniau tir bwrdais canoloesol sy'n goroesi
4. Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig a'r tir cyhoeddus cysylltiedig
5. Adeiladau preswyl a masnachol gyda chapeli ac eglwysi rhyngddynt wedi'u gosod yn ôl oddi wrth ymyl y stryd

Y casgliad yw y dylai statws ardal gadwraeth yr ardal barhau, ond y dylid gwneud pump addasiad i'r ffiniau i adlewyrchu'r cyflwr cyfredol.



2



1



4



3



5

## 1.0 Cyflwyniad

### 1.1 Pwrpas a chwmpas yr Adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Donald Insall Associates (DIA) mewn ymateb i'r brîff gan Gyngor Sir Gâr i baratoi Gwerthusiad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli ar gyfer Ardal Gadwraeth Heol Awst yn nhref Caerfyrddin. Cyllidwyd yr adroddiad hwn trwy grant gan y Gronfa Adfywio Cymunedol.

Nod y prosiect yw astudio ac asesu'r Ardal Gadwraeth sy'n bodoli eisoes i ddeall a chyfleu'r hyn sy'n ei gwneud yn arbennig, ystyried p'un ai yw'r ffiniau sy'n bodoli yn briodol a chynhyrchu dogfen werthuso gadarn a fydd yn ganllaw ar gyfer rheoli, cynnal a chadw a datblygu'r ardal yn y dyfodol. Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio gan berchnogion adeiladau sy'n dymuno gwneud gwaith i'w heiddo, gan benseiri a datblygwyr wrth ystyried newid i adeiladau sy'n bodoli eisoes a gan staff yr Awdurdod Lleol i'w cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r adroddiad mewn pedair rhan:

Deall yr ardal: Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r ardal, ei datblygiad hanesyddol a'i harwyddocâd.

Gwerthusiad y safle: Mae'r adran hon yn nodi elfennau allweddol yr Ardal Gadwraeth a sut maent yn cyfrannu at gymeriad, ymddangosiad ac arwyddocâd yr ardal.

Problemau, bygythiadau a rheoli: Mae'r adroddiad yn parhau gydag arsylwadau ynghylch problemau a bygythiadau penodol ac yn nodi cyfres o egwyddorion i roi arweiniad i ddatblygiadau yn y dyfodol tra'n sicrhau cadw diddordeb arbennig yr ardal, a'i wella lle bo'n bosibl.

Cyfleoedd: Mae'r rhan hon yn ehangu ar y cyfleoedd a nodwyd i hysbysu'r casgliadau terfynol.

### 1.2 Diffinio Ardaloedd Cadwraeth

Ardaloedd Cadwraeth yw 'ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, ac y mae'n ddymunol gwarchod neu wella'i chymeriad neu'i golwg.'

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn rhannau penodol o'r amgylchedd hanesyddol a ddynodwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol oherwydd eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Gallai diddordeb pensaernïol gynnwys enghraifft dda o fath penodol o anheddiad, cynllunio tref neu grŵp o adeiladau mewn steil rhanbarthol neu leol nodweddiadol neu o ansawdd pensaernïol uchel. Mae diddordeb hanesyddol yn gysylltiedig ag esblygiad hanesyddol lle penodol, cyfnod penodol neu gyfnodau cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol fel tai diwydiannol cynnar ac ardaloedd lle mae tystiolaeth archeolegol, pensaernïol neu dopograffegol o darddiad a phrif gyfnodau datblygu wedi goroesi'n arbennig o dda. Mynegir cymeriad trwy bethau fel steil yr adeilad, y deunyddiau, cynllun gosod y stryd, defnydd tir a chyfnodau datblygiad.

Yn y system gynllunio mae ceisiadau am newid mewn Ardal Gadwraeth yn cael eu hasesu i ddeall yr effaith y gallai'r datblygiad ei gael ar arwyddocâd yr ardal.

Arwyddocâd yw un o'r egwyddorion arweiniol sy'n mynd trwy Polisi Cynllunio Cymru 2021. Gallai hyn fod yn arwyddocâd archeolegol, pensaernïol, artistig neu hanesyddol a gallai ddeillio nid yn unig o nodwedd ffisegol ond o'i leoliad hefyd.

Rhoir mesurau rheoleiddio ychwanegol ar waith penodol mewn Ardal Gadwraeth, yn cynnwys dymchwel, gwaith ar goed a hysbysebion. Mae'n ofynnol i'r holl benderfyniadau cynllunio gael eu hasesu yn erbyn arwyddocâd yr ardal i sicrhau ei gynnal a'i wella a'i gyfoethogi lle bo modd.

Mae'r ddogfen hon yn nodi arwyddocâd a chymeriad yr ardal i gynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais i newid a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall sut y gallai'r cynigion effeithio ar hyn a phenderfynu a yw'n newid cadarnhaol neu'n newid negyddol.

### 1.3 Crynodeb y Ddeddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau perthnasol

Mae'r prif ddarpariaethau ar gyfer dynodi a rheoli ardal gadwraeth wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, polisi cynllunio'r llywodraeth a chanllawiau, yn cynnwys:

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11, Chwefror 2021

Polisi Cynllunio Cymru – Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De Orllewin Cymru, Medi 2021

Cynllun Cyflawni ac Adferiad Economaidd Sir Gâr, Ebrill 2021

Ceir crynodeb a dolenni i'r dogfennau hyn mewn atodiad i'r ddogfen hon.

**1.4 Datganiad Dull**

Cyflawnwyd yr isod wrth baratoi'r adroddiad hwn:

*1. Adolygu'r wybodaeth sy'n bodoli eisoes*


Cyfeiriwyd at nifer o ffynonellau i ddeall diddordeb hanesyddol a phensaernïol yr ardal, yn cynnwys dogfennau wedi'u cyhoeddi a heb eu cyhoeddi, cofnodion cynllunio, canllawiau wedi'u mabwysiadu ac yn yr arfaeth a deddfwriaeth ac adnoddau ar-lein

*2. Casglu gwybodaeth*

Cynhaliwyd ymweliadau safle gan Insalls ym mis Chwefror a Mawrth 2022 i gynnal dadansoddiad gofodol a dadansoddi'r ffabrig. Edrychwyd ar yr adeiladau a'r safleoedd o barth y cyhoedd ac ni chawsant eu harchwilio yn fewnol.

*3. Ymgysylltu â'r Gymuned*

Un o nodau allweddol y prosiect yw deall a chyfleu'n glir yr hyn mae'r gymuned leol yn ei werthfawrogi am yr ardal. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid cymunedol perthnasol a staff y Cyngor yn ystod drafftio'r ddogfen hon a gwnaeth hyn gynorthwyo i ffurfio'r casgliadau. Dylid ystyried y ddogfen hon fel man cychwyn trafodaeth a bydd yn cael ei rhannu ymhellach â rhanddeiliaid cymunedol perthnasol. Rydym yn croesawu adborth er mwyn deall barn lleol am nodweddion y treflun, unrhyw broblemau a'r cyfleoedd.


Ffiniau Ardal Gadwraeth Heol Awst
Harrison Court
Burial Ground
PARCMAEN STREET
WATER STREET
MODEL COURT
Llys Model
ST DAVID'S STREET
ST CATHERINE STREET
ST DAVID'S AVENUE
MORLEY STREET
PH
Clock Tower
Market
JOHN STREET
Cambrian Way
CAMBRIAN PLACE
Merlin Lane
Red Street
Zion Chapel
MANSEL STREET
Garage
Temple Gardens
Sunday School
Church
Shaw's Lane
CHAPEL STREET
Bank
LAMMAS STREET
Meml
DARK GATE
Guildhall Square
War Meml
PICTON TERRACE
Christ Church
Hotel
Boar's Head Hotel
MILL STREET
BLUE STREET
Thomas Court
FRIARS PARK
MERLIN'S WALK
Playground
Civil War Earthwork
Bull Lane
Bus Station
QUAY STREET
MORFA LANE
Quaybank
Carmarthen Park
Car Park
CORACLE WAY

## 2.0 Deall y Safle

### 2.1 Crynodeb yr Arwyddocâd a'r Cymeriad

Rhoir crynodeb o nodweddion allweddol yr ardal a'r eitemau arwyddocaol isod (ceir rhestr ehangach yn adran 7).

- Patrwm stryd hanesyddol sy'n goroesi i raddau helaeth ers i'r Rhufeiniaid greu'r dref trwy'r twf a welwyd yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, wedi'i ddylanwadu'n fawr gan y marchnadoedd, y ffeiriau a'r porthmyn
- Cysylltiadau hanesyddol â'r Brodyr a'r Gwrthgloddiau
- Cadw'r lleiniau tir bwrdais
- Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig a'r sgwâr cyhoeddus
- Nifer o gysylltiadau â digwyddiadau a phobl nodedig
- Datblygu o gwmpas y gofeb fel enghraifft o ddatblygiad y dosbarthiadau cymdeithasol o'u cymharu â bythynnodd gweithwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg
- Cyfres o olygfeydd arwyddocaol i, o a thrwy'r ardal
- Adeiladau o arwyddocâd lleol a chenedlaethol
- Teimlad cryf o fod wedi'i amgau bob yn ail â chipolwg ar olygfeydd ehangach
- Nodweddion parth y cyhoedd a threflun nodedig
- Mae'r nodweddion hyn yn dangos twf y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, yn cynnwys adeiladau masnachol a thafarndai blaenorol
- Cyfres o adeiladau crefyddol nodedig wedi'u gosod yn ôl o ymyl y ffordd, sy'n torri llinell y stryd ac sy'n cynnig mwyafrif y mannau gwyrdd yn yr ardal
- Eglwys Crist sy'n diffinio'r fynedfa i'r Ardal Gadwraeth o'r gorllewin
- Cyfres o adeiladau cornel amlwg sy'n nodi cyffyrdd yn y stryd
- Terfynau hanesyddol wedi goroesi sy'n cynnwys gwaith metel a cherrig rwbel
- Cyfres o flaenau siopau ansawdd uchel o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg



Heol Awst yn edrych i'r dwyrain tuag at Gapel Heol Awst



Heol Awst yn edrych i'r gorllewin tuag at gyffordd Heol Mansel

### 2.2 Lleoliad


Mae Heol Awst i'r gorllewin o dref Caerfyrddin, sef tref sirol Sir Gâr, a'r dref hynaf a gofnodwyd yng Nghymru y bu pobl yn byw ynddi'n barhaus. Mae'r Ardal Gadwraeth yn cael ei ffinio gan Ardaloedd Cadwraeth Teras Picton a Pharcmaen i'r gorllewin a'r gogledd yn ôl eu trefn, ac Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin i'r dwyrain. Mae Afon Tywi i'r de, ond wedi'i gwahanu oddi wrth yr Ardal Gadwraeth gan ddatblygiad cyfoes ar gyrion yr Ardal Gadwraeth. Mae ffurf yr Ardal Gadwraeth wedi'i sefydlu'n bennaf gan ei chynllun gosod hanesyddol sy'n parhau'n gyfan i raddau helaeth, yn ffurfio ffordd drwodd trwy ganol y dref o'r gorllewin i'r dwyrain, gydag adeiladau'n ffryntio ar y strydoedd yn gyffredinol.

### 2.3 Topograffeg a lleoliad

Lleolir y dref ar lan gogledd orllewinol yr Afon Tywi, tua naw milltir o Fae Caerfyrddin gyda rhai o'r golygfeydd gorau o Ddyffryn Tywi oherwydd y topograffeg, sy'n codi'n serth i'r gogledd ac yn rhoi golygfeydd panormig dros y cefn gwlad tu hwnt. Lle mae datblygiadau'n tarfu ar y golygfeydd hyn gall amharu'n sylweddol ar yr Ardal Gadwraeth, yn cynnwys ardaloedd sydd y tu allan i'r ffiniau ond a allai gael effaith sylweddol ar y golygfeydd i, o a thrwy'r ardal ac felly mae angen eu hystyried fel rhan o'r broses ddatblygu.

Enghraifft o hyn yw'r datblygiad manwerthu cyfoes i'r de o'r Ardal Gadwraeth sydd wedi lefelu'r tir ar y pwynt hwn a sgrinio golygfeydd i'r de nes i chi gyrraedd Gwrthglawdd y Rhyfel Cartref, ac ar y pwynt hynny mae'r tirwedd llethrog o'r de i'r gogledd yn cynnig golygfeydd ehangach allan. Yr unig ardal arall lle rydych chi'n cael syniad o'r topograffeg yw wrth y cyffyrdd â Heol Dŵr a Heol Morley lle rydych chi'n cael ymdeimlad o'r tirwedd y tu hwnt.

Ar y pen dwyreiniol lle mae Heol Awst yn ymuno â Phorth Dywyll, mae'r ffordd yn mynd ar i lawr sy'n canaitàu golygfeydd clir tuag at Sgwâr Neuadd y Dref, sy'n cysylltu'r ddwy Ardal Gadwraeth gyda'i gilydd.



# 3.0 Datblygiad Hanesyddol

**Crynodeb Datblygiad Hanesyddol Tref Caerfyrddin**

Credir yn gyffredinol mai Caerfyrddin yw'r dref hynaf yng Nghymru y bu pobl yn byw ynddi'n barhaus. Fe'i hadeiladwyd ar y ffordd Rufeinig ar y pwynt lle roedd dwy gangen yn uno, a alwyd yn Moridunum (môr gaer). Mae'r anheddiad cynharaf wedi'i ddyddio o gwmpas 75 Oed Crist ac mae'r dref wedi bod yn ganolfan weinyddol bwysig ac yn lleoliad strategol ers y cyfnod hwn. Cofnodwyd y dref yn Nheithlyfr Antwn, cofrestr gorsafoedd Rhufeinig a phellteroedd ar hyd ffyrdd. Tybir bod yr orsaf ar y safle lle'r adeiladwyd y castell yn ddiweddarach. Mae'r amffitheatr Rhufeinig i ddwyrain y dref yn un o saith amffitheatr sy'n goroesi ym Mhrydain, ac un o ddau yn unig yng Nghymru Rufeinig. Sefydlwyd harbwr i orllewin y dref gyda phont yn is i lawr yr afon yn cynnig mynediad ar draws yr Afon Tywi. Yn dilyn ymadawiad y Rhufeiniad daeth y dref yn brif fan llywodraethu De Cymru.

Yn ystod yr Oesoedd Canol roedd yr anheddiad yn cael ei adnabod fel Llanteulyddog ac roedd yn un o saith prif sedd Dyfed, un o nifer o freniniaethau Cymru a sefydlwyd yn dilyn cyfnod y Rhufeiniaid. Cydnabuwyd pwysigrwydd strategol y dref trwy adeiladu'r castell oddeutu 1094, er bod y dystiolaeth gyntaf a gofnodwyd fod y castell wedi'i feddiannu tua 1116. Sefydlwyd Priordy Sant Ioan oddeutu'r amser yma, yn deillio o gymuned grefyddol Gymreig a sefydlodd ei hun yn y dref cyn dyfodiad y Normaniaid. Credir mai Llyfr Du Caerfyrddin, a ysgrifennwyd yn y Priordy, yw'r llawysgrif cynharaf sy'n goroesi a ysgrifennwyd yn Gymraeg yn unig, ac ymhlith y cerddi eraill, mae'n cynnwys chwedlau Arthur.

Dros amser cymerodd chwedlau Myrddin fwy o gymeriad lleol, yn cynnwys yr un am yr Hen Dderwen neu Dderwen Myrddin, coeden a safai yn Heol y Prior yn flaenorol, gyda rhai darnau wedi'u cadw yng nghyntedd Neuadd Ddinesig San Pedr.

Ymddengys bod y castell wedi dioddef ymosodiadau parhaus yn ystod yr elyniaeth rhwng y Cymry a'r Saeson, a gafodd ei ddinistrio ym 1215 a'i ailadeiladu ym 1223 pan roddwyd caniatâd ar gyfer muriau'r dref a murfylchau, gan wneud Caerfyrddin yn un o'r trefi muriog canoloesol cyntaf yng Nghymru.

Gwnaeth Brodyr Ffransisgaidd sefydlu yn y dref yn y drydedd ganrif ar ddeg ac erbyn 1284 roedd ganddynt eu Brodyrdy eu hunain yn Heol Awst, safle'r ganolfan siopa erbyn hyn. Roedd y Brodyrdy clwysty dwbl mor fawr ag unrhyw frodyrdy rhanbarthol ym Mhrydain. Bu farw Edmwnd Tudur, tad Harri VII yma ym 1456, a symudwyd ei fedd i Gadeirlan Dewi Sant pan gafodd yr adeilad ei ddadgysegru yn dilyn diddymiad y Brodyrdy a'r Priordy ym 1538.

Gwnaeth y dref ffynnu yn yr unfed ganrif ar bymtheg gyda'r uchelwyr yn adeiladu 'tai tref' mawr yn y fwrdeistref. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y porthladd, gyda'r cei yn llawn warysau. Yn yr 1720au roedd 57 llong wedi'u cofrestru yng Nghaerfyrddin, ac roedd y tunnelli nwyddau bryd hynny ddwywaith rhai Caerdydd. Roedd llongau'n cael eu hadeiladu hefyd yng nghyffiniau Canolfan y Cei yn awr. Parhaodd i fod y dref fwyaf yng Nghymru tan y Chwyldro Diwydiannol pan ddatblygodd anheddiadau newydd ar hyd glofeydd de Cymru ym Mhort Talbot, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerffili.

Daeth y llong fasnachol olaf i borthladd Caerfyrddin ym 1938.

Sefydlwyd yr ysgol ramadeg ym 1587 gan Elisabeth I a roddodd ei siarter gorffori iddi, sydd bellach yn gartref i'r hen ysbyty yn Heol y Prior. Cynyddwyd y gwaddol gan y Parchedig William Jones, a roddodd dŷ a gardd nesaf at yr ysgoldy. Mae'r ysgol wedi addysgu nifer o weinidogion nodedig, yn cynnwys John Jones, a luniodd y geiriadur Groeg a Saesneg cyntaf, a'r Dr Abraham Rees, awdur y gwyddoniadur.

Wedi'r Deddfau Uno, daeth Caerfyrddin yn bencadlys barnwrol Llys y Sesiwn Fawr yn ne orllewin Cymru ac fe'i gwnaed yn sir gorfforaethol gan Harri VIII, a gadarnhawyd gan Iago I ym 1604 gan ei ddynodi yn 'Sir Bwrdeistref Caerfyrddin'. Yn ystod y Rhyfel Cartref cafodd ei hamddiffyn gan gylched bastiynau eang, gyda rhannau'n goroesi i orllewin y dref. Dywedodd Archeoleg Cambria mai dyma rai o'r enghreifftiau gorau o wrthfuriau tref frenhinol i oroesi ym Mhrydain. Cyflwynwyd Siarter Bwrdeistref newydd ym mis Gorffennaf 1764 gan Siôr III, yn creu cyngor cyffredin i'w ethol gan y maer a'r bwrdeiswyr. Bryd hynny prif weithgareddau'r dref oedd amaethyddiaeth a'r crefftau cysylltiedig, yn cynnwys cynhyrchu gwlân. Er nad oedd bwriad iddi ddilyn trefi diwydiannol eraill, roedd yn ganolfan gynnar cynhyrchu tun, gyda ffwrnais chwyth a melinau tun wedi'u hadeiladu yng nghanol y ddeunawfed ganrif. Symudodd y diwydiant hwn i Lanelli yn bennaf o ganol i ddiwedd y ddeunawfed ganrif.

Ym 1648 dychwelodd Castell Caerfyrddin i ddwylo'r Seneddwyr a gorchmynodd Cromwell ei ddatgaeru, a pharhaodd yn y cyflwr hynny tan 1787 pan gafodd y prif

ran ei gynnwys yn y carchar sirol a gwblhawyd ym 1792 gan John Nash. Neuadd y Dref, a sefydlwyd ym 1767-7, oedd lleoliad yr holl fusnes cyhoeddus yn y fwrdeistref.

Mae trigolion nodedig Caerfyrddin yn cynnwys y Parchedig Lewis Bailey, awdur 'Practice of Piety; Sir Walter D'Evereaux, First Earl of Essex, is buried here.' Dywedir bod Syr Richard Steele wedi ysgrifennu ei ddrama 'The Conscious Lovers' yn ei breswylfod yma. Chwaraeodd y dref ran fawr yn natblygiad anghydffurfiaeth Gymreig, gyda llawer o bersonoliaethau arweiniol y mudiad wedi'u geni yma, y dref a ddaeth yn gartref masnach llyfrau Cymru yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r dref yn parhau wedi'i ffurfio'n bennaf gan ddwy brif stryd, yn cyfarfod yn y canol lle'r safai'r Groes Uchel yn wreiddiol ac yna'r marchnadoedd pysgod a menyn yn ddiweddarach. Mae'r rhain wedi'i tynnu i lawr ac mae cofeb i'r Uwchfrigadydd Syr William Nott yno yn awr, a gelwir yr ardal yn Sgwâr Nott. Ailadeiladwyd ac estynwyd wal y cei dros y canrifoedd ac mae'n debyg bod y wal a welir heddiw yn dyddio o ddechrau 1800au pan gafodd y cei ei ymestyn i'r dwyrain at bont y dref.

Cafodd y bont ganoloesol wreiddiol ei hadnewyddu ym 1937 gan bont ffordd yr A484, sydd bellach yn strwythur rhestredig Gradd II, a oedd yn ddatblygiad dadleuol iawn.

.



Cynllun tybiedig y dref yn y ddeuddegfed ganrif



Cynllun tybiedig y dref yn y drydedd ganrif ar ddeg



Cynllun tybiedig y dref yn y bymthegfed ganrif

**Crynodeb Datblygiad Hanesyddol Heol Awst**

O’r drydedd ganrif ar ddeg roedd Heol Awst yn cynnwys cyfres o leiniau tir bwrdais, gyda 21 llain yn mynd ar hyd llinell Heol Awst wedi’u cofnodi ym 1268. Yn wir, mae’r enw Heol Awst yn deillio o’r rhyddid blynyddol i ddefnyddio’r caeau agored ar gyfer pori fel comin o 1 Awst tan y tymor plannu nesaf - diwrnod ‘Loaf-mass’ yn Saesneg. Wedi’i lleoli y tu allan i furiau canoloesol tref hanesyddol Caerfyrddin, y prif adeilad yn yr ardal oedd Brodyrdy’r Brodyr Llwyd, y gwyddwn ei fod yn bodoli ers 1282, er nad yw union ddyddiad ei sefydlu yn hysbys. Byddai prif giat y Brodyrdy wedi agor i Heol Awst lle safai croes bregethu unwaith, a barhaodd yno tan yr ail ganrif ar bymtheg. Mae hyn i’r dwyrain o Gofeb y Ffiwsilwyr Cymreig ac ar linell debyg i ffordd Parc y Brodyr wedi’i hailddatblygu erbyn hyn.

Diddymwyd y Brodyrdy yn nechrau i ganol yr unfed ganrif ar bymtheg ac ym 1543 roedd y Brodyrdy wedi’i ddymchwel yn rhannol yn safle ysgol ramadeg gyntaf y dref. Roedd rhan o amddiffynfeydd y rhyfel cartref yn yr ail ganrif ar bymtheg yn mynd trwy ganol y safle, ac yn niwedd yr ail ganrif ar bymtheg cafodd unrhyw dameidiau a oedd ar ôl eu hymgorffori yn safle Tŷ’r Parc ym Mharc y Brodyr. Gellir gweld y tŷ ar fapiau Arolwg Ordnans hyd at ddiwedd yr ugeinfed ganrif, pan ailddatblygwyd y safle yn llwyr ar gyfer cyfanwerthu, a dymchwelwyd holl olion Tŷ’r Parc a’r Brodyrdy, yn cynnwys y rhannau o wal y fynachlog a oedd yno.

Ym 1642-51, adeiladwyd amddiffynfeydd y rhyfel cartref, yn cynnwys gwrthgloddiau pridd a ffosydd am yn ail â bastiynau i ddarparu lle i’r gynnau a milwyr.



Troshaen Ffin Hanesyddol Heol Awst 1887 (Atgynhyrchwyd â chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban)

Fe'u hadeiladwyd i'r gorllewin a'r gogledd o Heol Awst, gan dorri trwy ganol Parc y Brodyr i'r de. Fe'u hystyrir yn un o'r enghreifftiau gorau o amddiffynfeydd y rhyfel cartref. Gellir gweld heneb restredig y Gwrthgloddiau y tu ôl i'r tai teras ar Lôn Morfa. Adeiladwyd gorsaf heddlu ar y safle ynghanol yr ugeinfed ganrif, wnaeth achosi cryn darfu, a bu rhagor o darfu ar y safle pan adeiladwyd archfarchnad Lidl yn 2019.

Ar sail mapiau Speed o 1610, roedd nifer o leiniau tir bwrdais ar gyrion gogleddol a deheuol Heol Awst, gyda lleiniau yn mynd i gyfeiriad y gogledd a'r de y tu ôl iddynt, yn ogystal â nifer fechan o dai ar yr hyn sy'n Heol Dŵr erbyn hyn. Roedd caeau agored i'r gogledd o hyn gyda'r Brodyrdy ar y tir deheuol i lawr at Afon Tywi. Mae'n debyg bod y strwythur hwn yn ddylanwad uniongyrchol o rôl marchnadoedd, ffeiriau a phorthmyn yn y dref.

Yn y ddeunawfed ganrif, wrth i'r dref ffynnu, adeiladwyd nifer o adeiladau nodedig ar Heol Awst, gan gael gwared ar lawer o'r lleiniau blaenorol, yn cynnwys Capel Heol Awst gwreiddiol a ailadeiladwyd yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'i ehangu ym 1826-7 a chredwyd ei fod y capel mwyaf yng Nghymru bryd hynny.

Lluniwyd Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig ym 1858 er cof am y milwyr a gollwyd yn Rhyfel y Crimea. Gosodwyd gwn o Rwsia o flaen y gofeb ym 1859, ond fe'i tynnwyd ymaith yn ddiweddarach ynghyd â pholyn lamp dwy gangen a ffownten ddŵr.

Ymddengys bod cynllun gosod y ffyrdd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac olion y lleiniau tir bwrdais, fel y gwelir yn y mapiau Arolwg Ordnans, wedi goroesi tan ganol i ddiwedd yr ugeinfed ganrif, ac mae'r olygfa i'r





Troshaen Ffin Hanesyddol Heol Awst 1905 (Atgynhyrchwyd â chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban)

gogledd wrth gerdded ar hyd Parc y Brodyr yn rhoi peth argraff o'r lleiniau cul blaenorol a fyddai wedi bod yn nodweddion yr olygfa hon.

Mae bythynnod y gweithwyr i'r gorllewin o Heol Awst yn wahanol i'r tai tref mwy, a adeiladwyd yn niwedd y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth i'r dref ffynnu ac ehangodd canol y dref tua'r dwyrain.

Daeth rhai defnyddiau masnachol yn sgîl hyn, yn cynnwys siopau, tafarndai a gwestai. Ceir Heol Mansel a Heol Morley i'r gogledd o Heol Awst ac sy'n uno hyn â Heol y Santes Catrin a ffurfiwyd ar ryw bwynt yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ledaenu llwybr blaenorol i felin wlân Santes Catrin, wedi'i lleoli i fanteisio ar y cwrs dŵr, cuddiedig erbyn hyn, sy'n bodoli ar ffin gogledd ddwyreiniol yr Ardal Gadwraeth. Dengys cofnodion degwm fod cyfran fawr o dir y tu ôl i lle mae Capel Seion yn awr yn eiddo i Barc-y-Felfed.

Adeiladwyd Eglwys Crist ar fynedfa orllewinol Heol Awst ym 1867, gan waredu rhan ollewinol y tai teras. Adeiladwyd Capel y Bedyddwyr Saesneg yn fuan wedyn ym 1869 ar safle tafarn y Ceffyl Du, a Chapel Seion a Chapel Undodaidd Parc-y-Felfed ychyding ynghynt ym 1849. Cafodd ynys siâp triongl yn cynnwys 5 annedd ar gyffordd Heol Awst a Theras Picton eu dymchwel yn niwedd yr ugeinfed ganrif er mwyn creu cylchfan. Ym 1998 ffurfiwyd Rhodfa Myrddin a Pharc y Brodyr ar y Parc y Brodyr blaenorol, ac adeiladwyd archfarchnad Tesco, sy'n Wilkinson's bellach, gan addasu'r rhwydwaith ffyrdd a'r tiroedd agored yn gorwedd y tu ôl i Heol Awst.



Troshaen Ffin Hanesyddol Heol Awst 1948 (Atgynhyrchwyd â chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban)

## 4.0 Dadansoddiad Gofodol

### 4.1 Golygfeydd i mewn i, yn ac o'r Ardal Gadwraeth

Dylai effaith datblygiadau arfaethedig gynnwys ystyried y golygfeydd i mewn i, yn ac o'r Ardal Gadwraeth. Nodir yr isod, heb eithrio golygfannau eraill, a gellir eu gweld ar y map a ganlyn.

### Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig

Saif y gofeb ar ran o'r ffordd wedi'i lledaenu lle mae Heol Awst yn cyfarfod Lôn Ddŵr, ac yn agos at leoliad blaenorol y groes bregethu'n gysylltiedig â'r fynedfa i'r Brodyrdy. Mae ei graddfa a'i lleoliad yn rhoi golygfeydd eang ar hyd Heol Awst, yn ogystal ag o'r Porth Dywyll yn Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin i'r dwyrain. Mae ei leoliad yn dynodi cyrchfan ar hyd y ffordd, ond oherwydd dwysedd uchel yr adeiladu ar Heol Awst, ni ellir ei gweld o ffyrdd eilaidd yn yr Ardal Gadwraeth.

### Golygfeydd y stryd

Mae natur hir a chymharol syth Heol Awst yn creu golygfeydd hir heb darfu arnynt ac yn caniatàu edrych ar adeiladau gyda'i gilydd, er bod tro bach yn y ffordd yn llurgunio hyn ar y pen gorllewinol. Gallai newidiadau cronnol ar raddfa fechan, neu ddatblygiadau mawr ar hyd y ffordd hon dorri ar y nodwedd hwn. Mae hyn yn cynnwys datblygiadau a fyddai'n terfynu'r golygfeydd hyn sydd y tu allan i'r Ardal Gadwraeth. I'r gwrthwyneb, mae Heol Mansel yn cynnig cyfres o olygfeydd byrrach, allwyrol, wedi'i gosod mewn cynllun gosod fel neidr gyda Chapel Seion fel marciwr nodededig ar hyd y llwybr hwn. Mae ffordd wasanaeth Parc y Brodyr yn dynodi ffin ddeheuol yr Ardal Gadwraeth ac yn darparu mynediad i gerbydau a llwybr cerdded mwy anffurfiol i Heneb y Gwrthgloddiau Cartref ac archfarchnad Lidl a Tesco. Wedi'i leoli y tu ôl i Heol Awst mae'n darparu golygfa ddiddorol ac amrywiol o gefn yr eiddo, a nodweddir gan gipolwg ar olygfeydd byrrach rhwng adeiladau.



Cofeb y Ffiwsilwyr  Cymreig



Heol Awst yn edrych i'r gorllewin o Borth Dywyll



Heol Mansel tua'r gogledd

*Nodir golygfeydd stryd nodedig, heb eithrio eraill, isod:*

Teras Picton i Heol Awst

Porth Dywyll i Heol Awst

Heol Awst i Gapel Seion

Heol Mansel i Heol y Gwyddau

**Tyrau a meindyrau**

Mae llawer o'r tolun yng Nghaerfyrddin wedi'i nodweddu gan dyrau a meindyrau'r capeli a'r eglwysi. Mae'r rhain yn darparu tirnodau pwysig, sy'n cael eu hamgylchu gan uchder lloriau is sy'n nodweddiadol o'r Ardal Gadwraeth. Gallai datblygiadau sy'n tarfu ar y golygfeydd hyn gael effaith negyddol ar yr ardal. Mae hyn yn cynnwys golygfeydd o:

Eglwys Crist

Eglwys Gynulleidfaol Saesneg

Eglwys Dewi Sant (Ardal Gadwraeth Teras Picton)

Tŵr y Cloc y Farcnhad (y tu allan i'r Ardal Gadwraeth yng Nghanolfan y Farchnad)



Yr olygfa i'r dwyrain i Ganolfan y Farchnad



Golygfa Eglwys Crist o Heneb Gwrthgloddiau'r Rhyfel Cartref


## Tirwedd amgylchynol a mannau agored

Golyga dwysedd uchel yr adeiladau at ymyl y stryd nad yw golygfeydd tuag at Afon Tywi neu'r tirwedd y tu hwnt i'r gogledd yn gyffredin, ac eithrio yn Heol Mansel a Heol Morley lle gellir cael cipolwg ar y tirlun yn y pellter.

Mae'r Gwrthgloddiau a mynwent Eglwys Crist yn darparu mannau pwysig i orffwys a myfyrio yn natur dwys fel arall cynllun gosod yr Ardal Gadwraeth, ac maent yn fannau sy'n darparu golygfeydd panoramig o'r tirwedd amgylcheddol i'r de hefyd.

## Golygfeydd caeedig ac wedi'u terfynu

Er bod llawer o'r golygfeydd yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u tra-arglwyddiaethu gan ychydig o brif ffyrdd trwodd, mae'r cipolygon i lawr strydoedd ochr, rhwng adeiladau ac ar hyd y strydoedd cefn hefyd yn rhan bwysig ac annatod o gymeriad yr ardal, ac mae nifer o lwybrau o'r fath sy'n uno Heol Awst a Pharc y Brodyr. Mae'r rhain yn cynnig golygfa ddiddorol, er efallai nad yw'n atyniadol yn weledol ar hyn o bryd, o weddluniau mwy anffurfiol ac olion y lleiniau tir bwrdais a oedd yn nodwedd yr ardal unwaith.




Ffiniau Ardal Gadwraeth Heol Awst
Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
Ardaloedd sy'n cynnig ymdeimlad o le
Mannau gwyrdd cadarnhaol
Toeau arwyddocaol
Y prif dirnod / adeiladau allweddol
Golygfeydd o'r stryd
Golygfeydd caeëdig
Golygfeydd terfynedig
Golygfeydd allwyredig


### 4.2 Prif dirnodau ac adeiladau allweddol

Mae gan Heol Awst 35 adeilad a strwythur rhestredig yn y dref sy'n dyst i ansawdd uchel y bensaerniaeth a'r cysylltiadau hanesyddol a'r datblygu sy'n rhan hanfodol o'i gymeriad.

### Adeiladau a Strwythurau Rhestredig

*Heneb Restredig y Gwrthgloddiau*

Adeiladwyd y gyfres hon o amddiffynfeydd pridd rhwng 1642-51 i amddiffyn gorllewin Caerfyrddin i'r Brenhinwyr yn ystod y Rhyfel Cartref. Credir mai dyma un o'r enghreifftiau o amddiffynfeydd Rhyfel Cartref wedi'u cadw orau yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n ffurfio elfen bwysig yn y tirwedd amgylchynol ac yn parhau i feddu ar botensial archeolegol sylweddol.



*Eglwys y Bedyddwyr Saesneg*

Adeiladwyd ym 1869 ar safle tafarn flaenorol y Ceffyl Du. Hwn oedd prif waith cyntaf George Morgan, pensaer arweiniol yng Nghaerfyrddin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a oedd yn bensaer a chontractwr yn ogystal ag un o ddiaconiaid y capel. Bu'n gysylltiedig â Dr Gwilym Davies hefyd, wnaeth arloesi gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac yn arweiniol wrth sefydlu UNESCO. Mae wedi'i restru fel adeilad Gradd II* am ei fod yn un o'r capeli clasurol mwyaf uchelgeisiol yng Nghymru, ac yn sicr mae'n uchafbwynt ac yn dirnod annisgwyl ar Heol Awst. Mae wedi'i osod yn ôl, sy'n lleihau ei effaith gweledol ar y strydlun, ond mae'n parhau'n adeilad nodedig yn yr Ardal Gadwraeth.



*Capel ac Ysgol Sul Heol Awst*

Cafodd y capel cyntaf ar y safle hwn ei adeiladu ym 1726, ei ailadeiladu'n fwy ym 1802 ac eto ym 1826 a thybid bryd hynny ei fod y capel mwyaf yng Nghymru. Fe'i adeiladwyd fel capel anghydffurfiol yn unol â dyluniadau William Owen o Hwlfford, gyda'r ychwanegiadau diweddarach yn cynnwys y rendr stwco ar y blaen, a wnaed yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg mae'n debygol, ac mae'n adeilad rhestredig Gradd II*. Mae'r Ysgol Sul a'r wal derfyn ar Heol Awst yn rhestredig Gradd II eu hunain, ac yn parhau estheteg y capel. Mae'n cynrychioli enghraifft ardderchog o gapel dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Nghymru, sy'n weladwy o Heol Awst a ffordd wasanaeth Parc y Brodyr. Mae'r Ysgol Sul yn cael effaith sylweddol ar y stryd oherwydd ei faint a manylion pensaernïol y capel ei hun y tu ôl iddo mewn cwrt blaen caeëdig. Gellir gweld y tiroedd a'r coed i'r de o'r capel o ffordd wasanaeth Parc y Brodyr ac mae'n cynnig man agored bwysig mewn ardal ddwys iawn fel arall.



*Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig*

Cofeb rhestredig Gradd II a godwyd ym 1858, wedi'i ddylunio a'i lunio gan y cerflunydd Edward Richardson, a thalwyd amdani gan y Cyrnol Lysons a swyddogion y gatrawd i gofio am milwyr 23 Ffiwsilwyr Cymreig a fu farw yn Rhyfel y Crimea. Gosodwyd canon o Rwsia o flaen y gofeb ym 1859 ond fe'i tynnwyd ymaith yn ddiweddarach. Mae'r gofeb yn llunio tirnod amlwg yn y stryd a'r golygfeydd trwy Heol Awst a thu hwnt, yn ogystal â chreu "sgwâr" cyhoeddus lle mae'r ffordd yn lledu.



*Eglwys Crist*

Eglwys blwyf Anglicanaidd rhestredig Gradd II a adeiladwyd rhwng 1867-9 i wasanaethu gynulleidfa Saesneg ar ochr orllewinol y dref, gyda Eglwys Dewi Sant yr eglwys Gymraeg. Cafwyd gwared ar y tŵr ym 1965 gan roi murganllaw yn ei le. Mae'r eglwys yn enghraifft dda o eglwys canol cyfnod Fictoria gyda thŵr croes ac mae'n dirnod amlwg yn y dref, yn ogystal â dynodi'r fynedfa i'r Ardal Gadwraeth.



*Eglwys Gynulleidfaol Saesneg*

Adeiladwyd ym 1861 i ddyluniad Poulton a Woodman o Reading. Mae'r eglwys yn parhau'n esiampl gain o bensaerniaeth Gothig ac mae'n rhestredig Gradd II. Wedi'i osod yn ôl o Heol Awst y tu ôl i wal derfyn restredig, mae'r meindŵr yn nodedig yn y strydlun, yn weladwy o nifer o leoliadau o'r tu mewn a'r tu allan i'r Ardal Gadwraeth. Fel gyda nifer o eglwysi yn yr Ardal Gadwraeth mae ei leoliad yn ôl oddi wrth y ffordd yn lleihau ei welededd ar y stryd, ond mae'n cynnig toriad i'w groesawu n y tai teras dwysedd uchel y naill ochr.



*Capel Seion*

Adeiladwd y capel Methodistiaid Calfinaidd rhestredig Gradd II hwn ym 1849 ar gyfer aelodau capel Heol Dŵr a oedd yn siarad Saesneg, gyda'r ysgoldy y tu cefn iddo wedi'i gwblhau ym 1862. Roedd y pensaer, R.G.Thomas, yn bensaer a aned yng Nghasnewydd a fu'n gwasanaethu'n ddiweddarach fel Prif Bensaer De Awstralia a phensaer cynorthwyol Coleg y Drindod pan ddychwelodd i Gaerfyrddin. Fe'i rhestrir fel enghraifft o gapel hardd o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn arddull Eidalaidd gan bensaer Cymreig nodedig. Wedi'i osod ar gornel Heol Mansel, mae'n darparu tirnod wrth gerdded o Heol Awst, gyda'r ardal werdd yn y blaen yn darparu toriad heddychlon i ymyl y stryd. Mae wedi'i drosi'n sensitif yn siop gornel.



*Capel Undodaidd Parc-y-Felfed*

Capel syml o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg o werth trefnlun i du ôl yr Ardal Gadwraeth, sy'n adeilad rhestredig Gradd II. Fe'i adeiladwyd ym 1849 ar gais Dr David Lloyd, pennaeth y Coleg Presbyteraidd ac fe gyfrannodd at wella addysg yn y dref a sefydlu'r Inffyrmari a'r fynwent. Bellach yn cael ei ddefnyddio fel deinttyddfa, dymchwelwyd yr ysgoldy yn nechrau'r unfed ganrif ar hugain. Wedi'i leoli ar ymyl ffin yr Ardal Gadwraeth, mae effaith weledol y capel yn gyfyngedig o'r tu mewn i'r Ardal Gadwraeth, ond mae'n dynodi un o'r prif fynedfeydd iddi.



*12 Heol Awst*

Adeilad rhestredig Gradd II a adwaenwyd fel Fferyllfa Walter Lloyd a'i Fab a oedd yn gweithredu o'r adeilad ym 1926 ac eto yn 2002 hyd heddiw. Credir ei fod wedi'i adeiladu ym 1892, a saif ar lain cornel pwysig ar Heol Awst a Heol Mansel, lle ledaenwyd neu'r ail-luniwyd y ffordd rhywbryd yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r blaen siop arddull arced yn llawn cymeriad ac yn creu mynedfa nodweddiadol i'r ffordd hon.



*18 Heol Awst*

Cafodd yr adeilad, cartref Banc y Midland yn flaenorol, ei adeiladu ym 1904 gan George Morgan ac mae wedi'i ffurfio o ddau adeilad a gafodd eu huno ym 1908; y bloc tri bae ar y gornel a elwid y Garden Hotel ac yna rhan tri bae i'r dwyrain, a gafodd ei ailwneud i gyfateb, yn yr 1930au o bosibl. Wedi'i ddylunio yn steil Baroc Lloegr, rhestrwyd yr adeilad am ei ddyluniad masnachol uchelgeisiol, gyda manylion cain mewn lleoliad cornel amlwg. Mae'r brics coch yn anarferol i'r dref ond yn nodweddiadol yn y strydlun.



*101 Heol Awst*

Adeilad rhestredig Gradd II sy'n debygol o fod yn deillio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn ymddangos ar fap Wood ym 1834, a dywedir ei fod ar safle tafarn o'r enw'r  Bremenda Arms, ond a adnabuwyd fel y Llew Aur ers diwedd yr bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r gweddlun stwco yn dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Saif mewn lleoliad amlwg y tu ôl i Gofeb y Ffiwsilwyr Cymreig, ac mae'n cadw llawer o'i gymeriad allanol ac mae'r canopi haearn o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ychwanegu ato fel nodwedd yn y stryd.



*107 Heol Awst*

Yn deillio o ddiwedd y ddeunawfed ganrif o bosibl, mae'n adeilad rhestredig Gradd II am fod yn enghraifft dda o adeilad masnachol a blaen siop o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae ffenestri'r ail lawr, mewn tair rhan, a ffenestri oriel ar ogwydd y llawr cyntaf yn arbennig o nodedig ac yn creu adeilad llawn cymeriad ar y stryd ac yn enghraifft o ddatblygiad masnachol y dref yng nghyfnod canol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



*117 Heol Awst, Rose and Crown*

Tafarn o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg mae'n debyg, gyda chanopi a phren addurniadol o'i chwmpas. Mae'n nodweddiadol o nodweddion yr Ardal Gadwraeth ac yn ffurfio tirnod amlwg wrth deithio i'r de o Heol Mansel ac mae'n terfynu'r golygfeydd ar hyd y llwybr hwn trwy'r Ardal Gadwraeth.



**Adeiladau a Strwythurau nad ydynt yn rhai rhestredig i'w nodi**

Nid yw'r adeiladau a ganlyn wedi'u rhestru'n statudol, ond maent yn atgyfnerthu cymeriad yr ardal, yn darparu tirnod pwysig neu'n rhan o dreftadaeth Caerfyrddin oherwydd arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol neu archeolegol, ac fe'u cydnabyddir fel asedau treftadaeth amhrisiadwy. Felly, rydym ni'n cynnig eu cynnwys mewn rhestr leol o adeiladau pwysig; ni fyddai hyn yn amddiffyn yr adeilad yn statudol ac ni fyddai gwaith ar adeilad wedi'i restru'n lleol angen caniatâd adeilad rhestredig, ond byddai diddordeb arbennig yr adeilad yn ystyriaeth berthnasol yn y broses cais cynllunio.

100 Heol Awst, New Parc Hotel, Golden Lion

Mae'n debygol y cafodd ei ffurfio trwy uno dau adeilad o ddechrau i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r adeilad yn nodedig nid yn unig am ei faint, ond ei flaen siop o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y gwaith saer allanol a'r ffasad stwco.



*120 Heol Awst, Boars Head Hotel*

Hen dafarn rhestredig Gradd II yn dyddio'n ôl i ganol y ddeuunawfed ganrif. Wedi dweud hynny, yn ôl y sôn cafodd ei hadeiladu ar dŷ tref cynharach yn dyddio'n ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg. Cafodd yr adeilad ei ail-adeiladu yn y 1750au a'r 1824au gyda stablau wedi'u hehangu yn y cefn  gyda hen lwybr o Heol Awst yn darparu mynediad. Wedi'i restru'n hen dafarn gyda chymeriad Georgaidd, er bod estyniad tuag at i fyny wedi effeithio'n negyddol ar ymddangosiad allanol i'r stryd. Wedi dweud hynny, mae ei raddfa a'i leoliad yn dal i ddarparu tirnod amlwg.



**Blaenau siopau i'w nodi**

Gall blaenau siopau wneud cyfraniad pwysig i'r Ardal Gadwraeth ac maent yn cynrychioli cyfnod pwysig o ddatblygu yng nghanol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan welwyd datblygu sylweddol yn y rhan hon o Gaerfyrddin. Gan mai cymharol brin yw'r enghreifftiau lle mae ffabrig hanesyddol yn goroesi, mae'r rhai sy'n weddill yn bwysig iawn a dylid eu cadw. Gellir tybio bod rhagor o ffabrig hanesyddol wedi'i guddio gan ffasgia mawr neu o dan ddeunyddiau cyfoes. Dylid ystyried ardaloedd o ffabrig hanesyddol rhannol yn werthfawr a dylid annog ailosod elfennau coll. Mae'r blaenau siopau a nodir isod yn cadw y cyfan neu ran o'u blaen siop o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn ychwanegiad llawn cymeriad i'r strydlun.

5 Heol Awst (anrhestredig) 7 Heol Awst

8 Heol Awst

9 Heol Awst (anrhestredig)

10 Heol Awst (anrhestredig)

11 Heol Awst (anrhestredig)

13-14 Heol Awst (anrhestredig)

24a Heol Awst (anrhestredig)

31 Heol Awst

33 Heol Awst (anrhestredig)

104 Heol Awst (anrhestredig)

107 Heol Awst

110 Heol Awst (anrhestredig)

114 Heol Awst (anrhestredig)

1-2 Heol Mansel (anrhestredig)

5 Heol Mansel (anrhestredig)

9 Heol Mansel (anrhestredig)

11 Heol Mansel (anrhestredig)

12 Heol Mansel (anrhestredig)

21 Heol Mansel (anrhestredig)



104 Heol Awst



8 Heol Awst




24 Heol Awst

### 4.3 Mannau Gwyrdd a Naturiol Pwysig

Mae ardaloedd cyfyngedig o leoedd gwyrdd yn yr Ardal Gadwraeth, yn aml yn gysylltiedig â chapeli ac eglwysi sy'n sefyll yn eu tiroedd eu hunain, yn ogystal â rhai coed ar y stryd. Mae'r gwyrddni yma'n darparu toriadau pwysig i ddwysedd uchel yr adeiladau ar y stryd.
Mae nifer o fannau gwyrdd yn yr Ardal Gadwraeth, sy'n ychwanegu'n fawr ar ei chymeriad a darparu seibiannau pwysig i ddwysedd uchel adeiladau'r stryd a lleoedd i orffwys, myfyrio a lle i weld eich amgylchfyd. Maent hefyd yn cynnig buddion o ran llesiant i'r rheini sy'n eu defnyddio ac fel y cyfryw mae ganddynt werth diwylliannol a chymunedol. Mae'r nodweddion a'r mannau gwyrdd allweddol yn cynnwys:

Y Gwrthgloddiau

Tiroedd Eglwys Crist

Tiroedd y Capel Cynulleidfaol Saesneg i Heol Awst

Tiroedd Capel Heol Awst i Barc y Brodyr

Tiroedd Capel Seion i Heol Mansel


Dangosir y mannau gwyrdd ar y map isod.



Tiroedd Eglwys Crist



Tiroedd Capel Heol Awst o Barc y Brodyr



Ffiniau Ardal Gadwraeth Heol Awst
Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
Mannau gwyrdd
Gerddi preifat / lled-breifat
Heneb Cofrestredig
Coed
Grŵp o goed
Gorchymyn Cadw Coed (TPO)
LAMMAS STREET
ST CATHERINE STREET
WATER STREET
MORLEY STREET
MANSEL STREET
PICTON TERRACE
PARCMAEN STREET
ST DAVID'S STREET
MODEL COURT
CLOS CATRIN
FRIARS PARK
MERLIN'S WALK
DARK GATE
BLUE STREET
QUAY STREET
JOHN STREET
CAMBRIAN PLACE
CHAPEL STREET
CORACLE WAY
MORFA LANE
Christ Church
Civil War Earthwork
Carmarthen Park
Zion Chapel
Market
Bus Station
Guildhall Square
Boar's Head Hotel
Heol Awst Capel yr Annibynwyr
Temple Gardens
Car Park
Burial Ground

## 5.0 Cymeriad a Golwg

Mae'r adran hon yn disgrifio cymeriad a golwg yr ardal fel mae'n bodoli ar adeg yr astudiaeth hon.

### 5.1 Nodweddion Treflun

Mae'r Ardal Gadwraeth wedi'i gosod ar hyd ffordd linol hanesyddol yn bennaf, gyda'r adeiladau ar fin y ffordd neu wedi'u gosod yn ôl oddi wrth ymyl y ffordd gyda llwybrau eilaidd i'r de a'r gogledd sy'n cysylltu Heol Awst â Heol y Gŵyddau a Lôn Morfa. Mae topograffeg yr ardal yn gymharol wastad, sy'n creu ymdeimlad o amgau trwy fwyafrif yr Ardal Gadwraeth. Caiff hyn ei bwysleisio gan y rhesi o dai teras ar raddfa debyg i'w gilydd a golygfeydd hir, syth. Mae cyfraniad coed a mannau gwyrdd i'r stryd, er yn gyfyngedig, yn nodwedd bwysig gan eu bod yn cynorthwyo i leddfu peth ar yr ymdeimlad hwn. Mae Parc y Brodyr yn eithriad clir i hyn, sy'n cynnig golygfeydd mwy agored i du cefn yr adeiladau ar Heol Awst.

Mae Eglwys Crist yn diffinio'r fynedfa i'r Ardal Gadwraeth wrth Deras Picton, tra bo'r un ar y pen dwyreiniol yn llai diffiniedig, yn newid i fod yn Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin yn lleoliad hanesyddol y wal ganoloesol a Phorth Dywyll. Mae adeiladau cornel amlwg ar Heol Ddŵr a Heol Mansel yn diffinio'r cyffyrdd hyn yn glir ac yn creu tirnodau yn y stryd. Mewn cymhariaeth nid yw mynediad Parc y Brodyr mor amlwg, ar y pen dwyreiniol a gorllewinol, ac nid yw'n annog ymchwilio na symud trwodd. Gallai hyn fod yn ffactor sy'n cyfrannu at ei gyflwr gwael cyfredol. Yn hanesyddol roedd alaiau yn cysylltu Heol Awst a Pharc y Brodyr, ond ymddengys bod y rhain yn cael eu defnyddio'n breifat yn awr fel dull dianc eilaidd o loriau uchaf a datblygiadau mewnlenwi. Mae gwahaniaeth amlwg rhwng bythynnod y gweithwyr




Cyffordd â Pharc y Brodyr



Cyffordd Teras Picton



Alaiau hanesyddol o Heol Awst i Barc y Brodyr

o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ym mhen gorllewinol Heol Awst, Heol Morley a Heol Mansel a'r tai tref mawr a'r adeiladau masnachol o gwmpas y gofeb.

Mae cyffordd Heol Mansel a ffordd wasanaeth y Farchnad gyferbyn â mynedfa i Ganolfan y Farchnad. Mae hyn yn annog pobl i symud rhwng y ddwy ardal yma ac mae tŵr y cloc a leolir yn y farchnad yn darparu tirnod wrth symud trwy'r Ardal Gadwraeth. Mae Capel Undodaidd Parc-y-Felfed gyda'i wal derfyn uchel yn diffinio un bloc cornel, tra bo wal ffin isel gyda llain galed mawr y tu ôl iddo gyferbyn. Ar hyn o bryd mae Farmyard Nursery yno, sy'n defnyddio'r gwagle i werthu planhigion ac mae'n creu arddangosfa werdd ac atyniadol yn y stryd. Petai'r rhan yma yn cael ei defnyddio gan gwmni masnachol amgen ar gyfer parcio neu storio byddai'n niweidiol i'r Ardal Gadwraeth a dylid gwrthsefyll hyn.

Er mai rhesi hir o adeiladau sy'n tra-arglwyddiaethu, ceir cipolwg ar olygfeydd trwy a rhwng adeiladau, yn ogystal ag i du cefn adeiladau o'r ffyrdd eilaidd, sydd hefyd yn cyfrannu at y cymeriad ac yn rhoi cipolwg ar gynllun gosod hanesyddol blaenorol yr ardal hon. Mae'n hawdd anghofio am y rhain, ond ni ddylid anwybyddu eu heffaith ar olygfeydd trwy'r Ardal Gadwraeth.

Mae Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig a meindŵr yr Eglwys Gynulleidfaol Saesneg yn cynnig tirnodau gweledol yn y tolun, sy'n caniatàu i chi wybod eich lleoladi, gyda'r simneiau a'r toeon ar oleddf yn ychwanegu at yr amrywiaeth hwn. Mae Capel Heol Awst ac Eglwys y Bedyddwyr Saesneg yn darparu toriadau dramatig i flaen y stryd a mannau o ddiddordeb ar y stryd, er bod y mannau gwyrdd y tu ôl i waliau terfyn sy'n cynnal ymyl cyson i'r palmant.

Gallai cyflwyno peth gwyrddni neu goed gynorthwyo i dorri dwysedd uchel y parth trefol.

Mae traffig yn amlwg yn yr Ardal Gadwraeth, sydd yn ddisgwyliedig o bosibl oherwydd ei gynllun gosod yn cynnig prif ffordd drwodd. Gellir gweld mannau parcio ar y stryd trwy Heol Awst i gyd, yn enwedig wrth Gofeb y Ffiwsilwyr Cymreig lle mae mannau parcio y ddwy ochr i'r ffordd. Mae'r maes parcio agored wrth fynedfa Parc y Brodyr o Heol Awst yn ychwanegu at hyn. Mae hyn yn dechrau erydu cymeriad gweledol yr ardal a byddai'n fuddiol cael gwared ar beth neu'r cyfan o'r mannau parcio os gellir dod o hyd i le parcio amgen heb effeithio ar y lleiniau sy'n bodoli eisoes. Gall plannu coed bob ochr i Heol Awst liniaru effaith yr ardal agored hon. Mae'r traffig yn medru effeithio ar symud trwy'r ardal hefyd, gan eich bod yn tueddu cerdded ar un ochr i'r ffordd yn unig. Gallai Rhodfa Parc y Brodyr gynnig llwybr trwodd diddorol a phleserus petai'n cael ei wneud yn fwy amlwg a deniadol.

Mae'r gofeb yn diffinio lledaenu'r ffordd a chyffordd allweddol, y ddau ar hyn o bryd yn gysylltiedig â'i ddatblygiad hanesyddol a lleoliad blaenorol y Groes Bregethu a oedd yn dynodi'r fynedfa i Frodyrdy'r Brodyr Llwyd o Heol Awst. Collwyd peth o'r cymeriad hwn trwy'r slabiau a'r parcio anghymesur, sy'n ei gwneud yn anodd croesi'r ffordd a gweld y gofeb. Gellid gwella'r gwagle hwn yn arwyddocaol er budd ehangach yr Ardal Gadwraeth.

Mae'r Gwrthgloddiau yn rhan bwysig o stori Caerfyrddin a Heol Awst, ond mae wedi'i arunigo ac yn cael ei anghofio, er niwed iddo a'r Ardal Gadwraeth.



Cyffordd Canolfan y Farchnad



Parc y  Brodyr yn edrych tua'r gorllewin

**5.2 Deunyddiau adeiladu**

Mae'r delweddau a'r rhestr isod yn rhoi enghreifftiau o'r deunyddiau a ddefnyddiwyd yn yr Ardal Gadwraeth sydd un ai'n cyfoethogi neu'n cadw nodweddion yr ardal.

*Adeiladau tirnod mawr, yn nodweddiadol yn grefyddol eu natur neu'r rhai sy'n diffinio corneli*

Cerrig rwbel, yn cynnwys mewn waliau terfyn

Cerrig wyneb y graig

Manylion cerrig a stwco ashlar (meini mewn haenau a heb fod mewn haenau)

*Deunyddiau cyffredin Rendr wedi'i baentio*

To llechi

Gwaith plwm


Gwaith coed wedi'i baentio


Pibellau dŵr glaw haearn bwrw

*Triniaeth ffiniau*

Gwaith haearn bwrw / haearn gyrru

Cerrig rwbel












### 5.3 Uchder adeiladau a'r berthynas â'u lleiniau

Mae'r adeiladau yn rhai deulawr neu dri llawr yn bennaf. Lle bo'r adeiladau'n uwch na hyn mae'n creu newid sy'n tynnu sylw at y newid yng ngweddluniau'r stryd ac mae wedi effeithio'n negyddol ar y cysondeb sy'n nodweddu llawer o'r Ardal Gadwraeth. Yr eithriadau i hyn yw'r eglwysi a'r capeli sy'n sefyll yn eu tiroedd eu hunain ac sy'n gweithredu fel tirnodau. Mae gan y lleiniau cornel amlwg i Heol Dŵr a Heol Mansel nifer o loriau sy'n rhoi uchder a thaldra ychwanegol iddynt, sy'n creu tirnodau ond heb orgysgodi eu cymdogion.

Mae'r gweddluniau cefn a welir o Barc y Brodyr a Lôn Shaw yn darparu llawer mwy o amrywiaeth, gydag estyniadau ac addasiadau unllawr yn ogystal a màs a ffurf gwahanol. I Barc y Brodyr mae'r stryd wedi'i diffinio ar un ochr gan wal terfyn isel i'r parc manwerthu newydd, ac mae dreifiau, garejis ac estyniadau yn y cefn yn creu ymyl stryd amrywiol. Yr eithriad i hyn yw wrth Gapel Heol Awst sy'n meddu ar wal derfyn o gerrig o gwmpas ei berimedr. Mae hyn yn wir yn Lôn Shaw lle mae'r wal derfyn i Gapel Undodaidd Parc-y-Felfed yn diffinio llawer o ymyl y stryd.

Golyga topograffeg yr ardal, a'r tro yn Heol Mansel, nad yw'r gweddluniau stryd mwy amrywiol a'r toriadau a achosir gan ddreifiau yn effeithio'n niweidiol ar gymeriad Heol Awst, yn hytrach mae ganddynt eu cymeriad eu hunain yn deillio o'r toriad yn y ffurfioldeb. Fodd bynnag, dylid ystyried toriadau ychwanegol.

Trwy'r Ardal Gadwraeth gyfan mae'r adeiladau wedi'u lleoli yn uniongyrchol ar ymyl y stryd gyda thoriadau yn y strydlun lle, yn gyffredinol, dim ond y capeli a'r eglwysi sy'n cynnig peth mannau gwyrdd i'r ffordd. Ar fin deheuol Heol Mansel ac ymyl dwyreiniol Heol Morley mae waliau terfyn isel gyda rheiliau uwchben yn creu ffiniau cul rhwng y stryd a'r tai yma.

Mae'r unig ran i gerddwyr yn unig yn yr Ardal Gadwraeth yn Rhodfa Myrddin, datblygiad manwerthu cyfoes a theras bach dai sy'n diffinio ymyl dwyreiniol yr ardal honno. Mae'r adeiladau o uchder tebyg i eraill yn yr Ardal Gadwraeth, ond mae uchder uwch y llawr gwaelod yn eu gosod ar wahân.

Nid oes unrhyw ymylon gwyrdd i'r stryd, gyda'r ardaloedd wedi'u tirlunio wedi'u gosod y tu ôl i ffiniau sy'n cadw ymyl caled cyson i'r stryd.

Mae'r lleiniau tir bwrdais a oedd yn diffinio'r ardal hon unwaith wedi'u colli erbyn hyn, er bod y plotiau adeiladu cul yn cadw peth o'r cymeriad hanesyddol hwn, ac yn ei adlewyrchu. Mae'r waliau terfyn i Barc y Brodyr sy'n mynd o'r gogledd i'r de, er eu bod wedi'u eu gwneud o ddeunyddiau cyfoes, yn dangos sut olwg fyddai ar y plotiau cefn hyn unwaith ac maent yn rhan ddiddorol o'r Ardal Gadwraeth y dylid eu cadw ac y gellid eu gwella er budd yr ardal.



Rhodfa Myrddin



Heol Mansel yn edrych tua'r dwyrain

## 5.4 Manylion nodweddiadol neu arwyddocaol

*Adeiladau mwy o faint, yn cynnwys y rhai o gymeriad crefyddol*

Tyrau a meindyrau

Ffenestri pen bwa, yn cynnwys peth gwydr lliw Parapetau

Ffasgia wedi'u haddurno   Ffenestri bae pren

Cerfio addurniadol ar gerrig  Gwladeiddiad

Conglfeini pendant

*Manylion cyson trwy'r Ardal Gadwraeth*

Ffenestri sash pren, yn nodweddiadol 1 dros 1, 6 dros 1 a 6 dros 6

Amgylchynau ffenestri penodol  Bandiau cerrig – plaen ac wedi'u haddurno

Drysau pren panelau

Rendr wedi'i baentio'n lliwgar Canopïau drysau

Manylion plinth Toeon ar oleddf  Simneiau

Giatiau a rheiliau gwaith haearn addurniadol  Waliau ffin cerrig rwbel



Nodweddion a henebion ym mharth y cyhoedd

*Adeiladau masnachol*

Ffenestri blaenau siop pen bwa

Arwyddion yn hongian

Blaenau siop pren










AND
CROWN




SAVANNAHS






HOTEL












TONY'S





### 5.5 Parth y cyhoedd; wyneb, dodrefn stryd ac arwyddion

Tarmac sydd ar y ffyrdd a'r palmentydd. I'r dwyrain o Gofeb y Ffiwsilwyr Cymreig ar Heol Awst mae'r palmentydd yn newid i slabiau cerrig, yn ogystal ag i ymyl dwyreiniol i fyny Lôn Shaw i fyny at Gapel Undodaidd Parc-y-Felfed.
Mae slabiau efo patrwm wedi'i godi yn y rhannau o'r palmant sy'n isel i ddarparu mynediad rhwng yr ymylon gogleddol a deheuol. Mae'r rhain yn arbennig o amlwg wrth eu hintegreiddio efo cerrig set. Mae ndoweddion ymyl y ffordd wedi'u cyfyngu i nodweddion cyfoes megis arwyddion ffyrdd, goleuadau traffig a bolardiau sy'h atal ceir rhag mynd ar y palmant. Disgwylir bod lefel benodol o seilwaith yn ofynnol ar gyfer diogelwch a mynd o gwmpas ac nid yw'r lefel gyfredol yn cael effaith niweidiol, er bod angen ystyried gosod eitemau ychwanegol yn ofalus fel nad ydynt yn cuddio adeiladau na golygfeydd allweddol.


Mae Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig yn sefyll ar ynys lle mae'r ffordd yn lledu. Mae cerrig yn dynodi'r ymyl gogleddol fel un lle nad oes mynediad ac yn gwaredu'r cymesuredd a oedd yn diffinio'r gwagle hwn unwaith. Gwelir parcio ar y stryd trwy'r Ardal Gadwraeth, sy'n tarfu ar y strydlun ac yn cynyddu tra-arglwyddiaeth y rhwydwaith traffig sy'n torri trwy'r ardal.



Heol Awst a Chofeb y Ffiwsilwyr Cymreig



Heol Awst yn edrych tua'r gorllewin ar yr Eglwys Gynulleidfaol Saesneg


Ffiniau Ardal Gadwraeth Heol Awst
Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
Ardal i gerddwyr yn unig
Blaen siopau hanesyddol
Nodwedd o'r treflun
Celfi stryd
Meindwr
Tŵr
LAMMAS STREET
DARK GATE
BLUE STREET
MERLIN'S WALK
FRIARS PARK
MANSEL STREET
MORLEY STREET
WATER STREET
ST CATHERINE STREET
PICTON TERRACE
MORFA LANE
PARCMAEN STREET
ST DAVID'S STREET
CLOS CATRIN
MODEL COURT
JOHN STREET
CAMBRIAN PLACE
CHAPEL STREET
QUAY STREET
CORACLE WAY
Christ Church
Civil War Earthwork
Carmarthen Park
Market
Clock Tower
Bus Station
Guildhall Square
Boar's Head Hotel
Zion Chapel
Heol Awst Capel yr Annibynwyr
Burial Ground
Car Park

## 5.6 Deunyddiau a thriniaethau terfyn

Yn nodweddiadol mae waliau terfyn a/neu rheiliau wedi'u cadw i'r ffyrdd eilaidd, gyda Heol Awst yn cael ei diffinio gan resi hir o dai teras yn uniongyrchol ar ymyl y stryd. Lle mae capeli ac eglwysi wedi'u gosod yn y teras, mae waliau cerrig isel gyda rheiliau uwchben yn cadw ymyl y stryd ac maent yn rhestredig yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'r giatiau a'r rheiliau i Eglwys y Bedyddwyr Saesneg yn arbennig o nodweddiadol. Yn achos Eglwys Crist mae wal derfyn isel yn diffinio'r fynedfa i'r Ardal Gadwraeth. Mae wal cerrig rwbel i'r tu cefn i'r eglwys sy'n ei gwahanu oddi wrth y Gwrthgloddiau y tu hwnt, er ei fod mewn cyflwr gwael ar hyn o bryd.

Lle bo ardaloedd blaen cul i'r tai oddi ar Heol Mansel a Heol Morley mae'r rhain wedi'u diffinio gan waliau cerrig isel, yn aml wedi'u rendro a'u paentio, gyda phatrwm cyffredin o bennau bwa i'r rheiliau uwchben.

Gellir gweld waliau terfyn uchel, mewn cymysgedd o frics a blociau cyfoes a cherrig rwbel hanesyddol ym Mharc y Brodyr, sy'n diffinio'r lleiniau ond yn nodweddiadol mewn cyflwr gwael er niwed i'r Ardal Gadwraeth. Ceir wal derfyn hanesyddol uchel yng Nghapel Undodaidd Parc-y-Felfed hefyd.

Oherwydd nifer yr enghreifftiau o rheiliau hanesyddol sy'n goroesi, lle'r defnyddiwyd rheiliau cyfoes mae'r rhain yn sefyll allan ac yn tynnu sylw oddi wrth yr Ardal Gadwraeth. Gan fod yr Ardal Gadwraeth wedi'i diffinio'n bennaf gan ddwysedd uchel yr amgylchedd adeiledig, mae natur agored y Gwrthgloddiau nad yw wedi'i ddiffinio gan derfynau yn elfen i'w chroesawu ond yn elfen eithaf annodweddiadol.



Rheiliau metel yr Eglwys Gynulleidfaol Saesneg



Giatiau a rheiliau i Eglwys y Bedyddwyr Saesneg



Wal derfyn Eglwys Undodaidd Parc-y-Felfed


## 6.1 Adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r Ardal Gadwraeth

Yn ychwanegol i'r adeiladau hynny i'w nodi a grybwyllwyd yn adran 4.1, mae llawer rhagor o adeiladau mwy gwylaidd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad ac ansawdd yr ardal gadwraeth; gallai hyn fod am nifer o resymau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys eu cyfraniad i'r treflun, eu hansawdd pensaernïol, eu nodweddion addurniadol neu gysylltiadau hanesyddol neu ddiwylliannol.

Tra bo adeiladau niferus yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal gadwraeth, mewn sawl achos mae eu hansawdd pernsaernïol wedi'i gyfaddawdu gan addasiadau gwael. O ran eiddo domestig, mae hyn yn tueddu bod trwy golli nodweddion hanesyddol megis ffenestri sash pren. Er gwaethaf hyn, mae'r adeiladau hyn yn parhau i ddangos ansawdd cryf a chyfraniad cadarnhaol y gellid eu cyfoethogi'n fawr trwy unioni'r addasiadau sy'n tynnu sylw. Dylai cais i ddadwneud addasiadau nad ydynt yn sympathetig un ai fel cais ar ei ben ei hun neu fel rhan o ailddatblygu ehangach yr ardal yn cael ei gefnogi.

## 6.2 Adeiladau sy'n tynnu sylw oddi wrth yr Ardal Gadwraeth

Mae adeiladau negyddol yn cael eu hadnabod fel y rhai sydd, oherwydd eu graddfa, eu dyluniad manwl neu eu deunyddiau, yn anghydweddol â phrif gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Gallai'r rhain cael eu hystyried fel ymgeiswyr ar gyfer ailddatblygu cynhwysfawr, er mewn rhai achosion gallai fod yn addas cadw cragen yr adeiladau hyn, gan osgoi colli'r carbon wedi'i ymgorffori sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu ar raddfa fawr.




Ffiniau Ardal Gadwraeth Heol Awst
Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
Adeiladau/mannau cadarnhaol
Adeiladau/mannau amharol

# 7.0 Arwyddocâd

Un o'r egwyddorion arweiniol o ran rheoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol yw dealltwriaeth o arwyddocâd yr ased, p'un ai'n adeilad, lle neu'n rhywbeth mwy anniriaethol. Mae'r arfer orau yn awgrymu asesu arwyddocâd yn erbyn cyfres o werthoedd a nodir isod:

Gwerth Tystiolaethol: Yr olion ffisegol a'r ffabrig wedi goroesi sy'n parhau i fodoli yn yr ardal

Gwerth Hanesyddol: Sut y gall yr ardal ein hysbysu am bobl, digwyddiadau neu agweddau bywyd yn y gorffennol

Gwerth Esthetig: P'un ai yw'r ardal yn bleserus i gerdded o'i chwmpas a chael profiad ohoni

Gwerth Cymunedol: Gwerth yr ardal i'r bobl sy'n byw yn, gweithio yn ac yn ymweld â'r ardal

Gallai pob un o'r gwerthoedd hyn fodoli ar wahanol lefelau o isel i uchel, ac mae'n bwysig deall hyn hefyd. Mae hefyd yn bwysig cydnabod yr eitemau hynny nad ydynt yn disgyn i'r categorïau hyn neu sy'n rhan o gategorïau lluosog i wahanol raddau. Gall hyn fod yn arbennig o wir wrth ystyried y nodweddion hynny sy'n creu naws am le.

Mae'r crynodeb isod yn nodi'r eitemau arwyddocâd allweddol yn yr Ardal Gadwraeth. Dilynnir hyn gan archwilio pob eitem yn fanylach a rhoi casgliad sy'n nodi sut mae pob un yn berthynol i'r gwerthoedd tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol ac i ba raddau.

- Patrwm stryd hanesyddol yn goroesi'n bennaf, yn dyddio o greu'r dref gan y Rhufeiniaid hyd at y twf a welwyd yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, wedi'i ddylanwadu'n fawr gan y marchnadoedd, y ffeiriau a'r porthtmyn
- Cysylltiadau hanesyddol â'r Brodyr Llwyd a'r Gwrthgloddiau
- Cadw lleiniau tir bwrdais
- Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig a'r sgwâr cyhoeddus
- Nifer o gysylltiadau â phobl a digwyddiadau nodedig
- Datblygu o gwmpas y gofeb fel enghraifft o ddatblygiad y dosbarthiadau cymdeithasol o'u cymharu yn erbyn bythynnod y gweithwyr o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg
- Cyfres o olygfeydd arwyddocaol i, o a drwy'r ardal
- Adeiladau o arwyddocâd lleol a chenedlaethol
- Teimlad cryf o fod wedi'i amgau, gyda mannau lle gellir cael cipolwg ar olygfeydd ehangach
- Adlewyrchu twf y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, yn cynnwys adeiladau masnachol a thafarndai blaenorol
- Cyfres o adeiladau crefyddol nodedig wedi'u gosod yn ôl o ymyl y stryd, sy'n torri llinell y stryd ac yn cynnig mwyafrif y mannau gwyrdd yn yr ardal
- Eglwys Crist sy'n diffinio'r fynedfa i'r Ardal Gadwraeth o'r gorllewin
- Cyfres o adeiladau cornel amlwg sy'n dynodi cyffyrdd yn y stryd
- Ffiniau hanesyddol sy'n goroesi yn cynnwys gwaith metel a cherrig rwbel
- Cyfres o flaenau siopau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg o ansawdd uchel

*Patrwm stryd hanesyddol*

Mae Heol Awst yn dilyn y ffordd Rufeinig a oedd yn arwain i dref Caerfyrddin o'r gorllewin, gyda ffyrdd cangen i'r gogledd a'r de, a datblygu'n dilyn hyn. Mae'r ffordd yn parhau fel y brif echel trwy'r Ardal Gadwraeth ac mae hynny'n parhau i ddylanwadu ar y datblygiadau a'r symudiadau un ffordd trwy a'r profiad o'r ardal. Mae'n debyg bod y patrwm wedi'i ddylanwadu gan y farchnad, y ffeiriau a'r porthmyn a helpodd nhw i dyfu'r dref.

*Y Brodyrdy a'r Gwrthgloddiau*

Mae henebion y Brodyr Llwyd a'r Gwrthgloddiau yn cael eu cydnabod fel safleoedd o werth hanesyddol arwyddocaol oherwydd yr hyn y gallant eu ddatgelu am ddatblygiad Caerfyrddin yn ogystal ag enghreifftiau o ddatblygiadau hanesyddol sy'n medru hysbysu ein dealltwriaeth ehangach am y cyfnodau hyn mewn hanes. Mae'r ddau yn meddu ar botensial archeolegol mawr hefyd. Mae'r Brodyrdy wedi ei golli bron yn gyfangwbl erbyn hyn i ailddatblygu ond cafodd ei gloddio a'i gofnodi'n sylweddol ar yr adeg. Yn yr un modd, mae'r Gwrthgloddiau wedi eu lleihau a'u cuddio yn helaeth. Cofnodwyd canfyddiadau ymchwiliadau archaeolegol yn ystod datblygiadau. Er gwaethaf hynny maent yn parhau i gadw eu harwyddocâd hanesyddol i dreftadaeth Caerfyrddin.

*Cadw lleiniau tir bwrdais*

Cafodd llawer o ddatblygu cynharach canoloesol y dref, yn yr Ardal Gadwraeth hon a thrwy Gaerfyrddin gyfan, ei seilio gwmpas y lleiniau tir bwrdais; llain hir, gardd neu iard efo waliau y tu ôl i adeilad, gyda blaen yr adeilad yn wynebu'r stryd mewn tref. Ailddatblygwyd ar y rhan fwyaf o'r lleinhau hyn ond gellir parhau i'w hadnabod mewn lleiniau adeiladau culach. Y tu cefn i Heol Awst mae nifer o waliau terfyn hanesyddol yn bodoli ac, er eu bod wedi'u llunio o ddeunyddiau cyfoes, maent yn cadw'r rhaniad rhwng y lleiniau a oedd yn nodwedd o'r ardal hon yn y gorffennol, sy'n caniatàu i ni gael peth cipolwg ar y patrwm gwreiddiol.

*Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig a'r 'sgwâr' cyhoeddus*

Mae Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig yn strwythur rhestredig yn ei hawl ei hun, ond mae hefyd yn sefyll yn rhan o'r ffordd a ledaenwyd, sy'n agos at y groes bregethu hanesyddol flaenorol a fyddai wedi dynodi'r fynedfa i'r Brodyrdy. Mae ei uchder a'i leoliad amlwg yn y stryd yn creu tirnod o nifer o olygfeydd ar hyd Heol Awst ac yn creu craidd naturiol i'r Ardal Gadwraeth a chyrchfan. Er bod parcio ar y stryd yn cael effaith negyddol arni ar hyn o bryd, a dull anghymesur o ran wyneb y stryd, mae'n parhau i gadw ei lle amlwg y gellid ei chyfoethogi ymhellach.

*Pobl a digwyddiadau nodedig*

Mae'r Ardal Gadwraeth wedi bod yn dyst i nifer o ddigwyddiadau hanesyddol, wedi bod yn gartref i nifer o drigolion nodedig ac mae'n cadw cysylltiad hanesyddol â llawer trwy'r strwythurau adeiledig hyn. Mae hyn yn cynnwys: Edmwnd Tudur, tad Harri VII a gladdwyd yn y Brodyrdy; George Morgan, pensaer blaenllaw yng Nghaerfyddin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a ddyluniodd Eglwys y Bedyddwyr Saesneg fel un o'i brif waith mawr cyntaf yn ogystal â'r hen fanc y Midland; cysylltiadau â Dr Gwilym Davies, a fu'n flaenllaw yn sefydlu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a ffigur arweiniol yn sefydlu UNESCO; y pensaer R.G.Thomas a oedd yn bensaer o Gymru, wedi'i eni yng Nghasnewydd, a wasanaethodd yn ddiweddarach fel prif bensaer De Awstralia a phensaer cynorthwyol Coleg y Drindod, a phan ddychwelodd i Gymru fe ddyluniodd Gapel Seion; a Dr David Lloyd, pennaeth y Coleg Presbyteraidd, a gyfrannodd at wella addysg yn y dref a sefydlu'r inffyrmari a'r fynwent ar gyfer Capel Undodaidd Parc y Felfed.

*Datblygiad y dosbarthiadau cymdeithasol*

Mae tri steil pensaernïol nodweddiadol yn yr ardal; bythynnod y gweithwyr i orllewin Heol Awst, Heol Mansel a Heol Morley, y tai tref mwy ar gyfer y dosbarth canol cynyddol yn y dref ac adeiladau masnachol, tafarndai a gwestai i gefnogi'r dref a oedd yn tyfu. Mae'r arddulliau gwahanol yn cael eu hatgyfnerthu gan y bythynnod wedi'i gosod ar strydoedd culach gyda'r adeiladau mwy yn wynebu'r rhan o'r ffordd wedi'i lledu yng nghraidd yr Ardal Gadwraeth.

*Golygfeydd arwyddocaol*

Mae topograffeg yr ardal a'i tholun yn creu cyfres o olygfeydd arwyddocaol i, o a drwy'r Ardal Gadwraeth, yn cynnwys y golygfeydd stryd hir wedi'u gwrthgyferbynu yn erbyn y golygfeydd byrrach sy'n gwyro fel neidr i Heol Mansel a'r golygfeydd ehangach allan ger Gwrthgloddiau'r Rhyfel Cartref yn ogystal ag i du cefn yr adeiladau. Mae pob un o'r golygfeydd hyn yn darparu persbectif gwahanol o'r ardal, sut y datblygodd ac sut maent yn addasu'r ffordd mae unigolion yn symud ac yn cael profiad o bob rhan. Mae meindyrau Eglwys Crist, yr Eglwys Gynulleidfaol Saesneg ac Eglwys Dewi Sant yn Nheras Picton a thŵr y cloc yng Nghanolfan y Farchnad, yn ogystal â Chofeb y Ffiwsilwyr, yn dirnodau arwyddocaol yn y strydlun.

*Adeiladau o arwyddocâd lleol a chenedlaethol*

Ceir cyfres o adeiladau rhestredig trwy'r Ardal Gadwraeth a restrwyd oherwydd eu hansawdd pensaernïol a'u ffabrig hanesyddol sydd wedi goroesi. Felly maent yn cyflwyno estheteg o'r radd flaenaf ac yn caniatàu deall sut le oedd yr ardal yn y gorffennol. Lle bo ffabrig hanesyddol wedi goroesi gall hyn roi arweiniad i ailgyflwyno manylion a gollwyd ac ysbrydoli datblygiad pellach sy'n deillio o gymeriad ansawdd uchel yr ardal.

*Teimlad amgaeedig a golygfeydd allan a rhwng adeiladau*

Mae'r ardal wedi'i llunio o gymysgedd o dai teras, gyda bylchau wrth y cyffyrdd a lle mae adeiladau mwy wedi'u gosod yn ôl o fin y stryd. Mae hyn yn creu cyfres o olygfeydd stryd hir, amgaeedig, ond gyda chipolwg rhwng adeiladau, golygfeydd panoramig ehangach lle ceir toriadau a golygfeydd y tolun a thalcenni adeiladau sy'n creu amrywiaeth a diddordeb wrth i chi gerdded trwy'r ardal.

*Twf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif*

Tyfodd Caerfyrddin yn gyflym rhwng y ddeunawfed ganrif a'r ugeinfed ganrif, gyda'r twf yn mynd i'r dwyrain a'r gorllewin o brif graidd y dref. Yn gorwedd yn uniongyrchol i orllewin y dref, tyfodd Heol Awst yn gyflym o ddiwedd y ddeunawfed ganrif i gefnogi poblogaeth gynyddol ac mae'n gysylltiad gweledol i'r datblygiad hwn ac yn rhan bwysig o hanes y dref, yn cynnwys datblygiad adeiladau masnachol y tu allan i graidd y dref.

*Cyfres o adeiladau crefyddol nodedig*

Mae gweddlun y stryd yn cael ei dorri'n nodweddiadol gan gyfres o eglwysi rhestredig rydych chi'n eu darganfod yn unig tra'n cerdded trwy'r Ardal Gadwraeth oherwydd bod pob un ohonynt wedi eu gosod yn ôl o ymyl y stryd. Maent oll o ansawdd pensaernïol uchel ac yn gwahodd cael eu harchwilio yn ogystal â chadw cysylltiad diriaethol â datblygiad hanesyddol cymunedau crefyddol yn y dref. Maent hefyd yn darparu y rhan fwyaf o'r mannau gwyrdd yn yr Ardal Gadwraeth ac felly maent yn fannau cyhoeddus gwerthfawr oddi wrth yr amgylchedd cyhoeddus trefol caletach.

*Eglwys Crist*

Mae Eglwys Crist yn eglwys restredig Gradd II sy'n dynodi'r fynedfa orllewinol i'r Ardal Gadwraeth. Yn ogystal â'i ansawdd pensaernïol, ei dirwedd ac yn benodol y goeden wrth y stryd mae'n cyfrannu golygfeydd hardd a phwysig yn yr Ardal Gadwraeth sy'n galluogi unigolyn i ddeall eu bod yn mynd i mewn i le â chymeriad arbennig.

*Adeiladau cornel*

Yn aml mae corneli'n cael eu dathlu yn yr Ardal Gadwraeth trwy gyfrwng adeiladau cornel amlwg sydd yn aml yn fwy amlwg oherwydd eu taldra uwch, deunyddiau ansawdd uchel a'u haddurniadau. Mae'r rhain yn creu cyfres o dirnodau ar hyd y stryd yn ogystal â dynode mynedfeydd i stryd gyfagos. Mae'r rhain yn adeiladau ansawdd uchel yn eu rhinwedd eu hunain, ac mae eu cyfraniad i'r golygfeydd a'r strydlun yn arwyddocaol hefyd.

*Ffiniau hanesyddol*

Er y collwyd nifer o derfynau hanesyddol, mae'r eglwysi yn eu tiroedd eu hunain yn cadw cyfres o waliau cerrig a rheiliau addurniadol sydd oll yn rhestredig y neu rhinwedd eu hunain ac yn ychwanegu'n arwyddocaol i olygfeydd y stryd tra'n darparu toriadau yng ngweddlun y stryd.

*Blaenau siopau*

Dynodir pen dwyreiniol yr Ardal Gadwraeth gan gyfres o flaenau siopau sy'n goroesi o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n dangos datblygiad masnachol canol y dref yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal â chynnig ychwanegiadau llawn cymeriad i'r stryd maent yn cadw ffabrig hanesyddol a manylion sy'n adlewyrchu dylunio masnachol yn ystod y cyfnod hwn.

| | Gwerth tystiolaethol | Gwerth hanesyddol | Gwerth esthetig | Gwerth cymunedol |
|---|---|---|---|---|
| Patrwm stryd hanesyddol | Gwerth uchel | Gwerth isel | | |
| Y Brodyrdy | Gwerth isel | Gwerth uchel | Gwerth isel | Gwerth isel |
| Heneb Gwrthgloddiau'r Rhyfel Cartref | Gwerth canolig | Gwerth uchel | Gwerth isel | Gwerth canolig |
| Cadw'r lleiniau tir bwrdais | Gwerth canolig | Gwerth canolig | Gwerth isel | |
| Cofeb y Ffiwsilwyr a r sgwâr cyhoeddus | Gwerth uchel | Gwerth uchel | Gwerth canolig | Gwerth uchel |
| Pobl a digwyddiadau nodedig | Gwerth canolig | Gwerth uchel | | |
| Datblygiad y dosbarthiadau cymdeithasol | Gwerth uchel | Gwerth uchel | | |
| Golygfeydd arwyddocaol | | | Gwerth uchel | Gwerth uchel |
| Adeiladau o arwyddocâd lleol a chenedlaethol | Gwerth uchel | Gwerth canolig | Gwerth uchel | |
| Teimlad amgaeedig a golygfeydd allan a rhwng adeiladau | | | Gwerth canolig | |
| Twf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif | Gwerth uchel | Gwerth uchel | | |
| Cyfres o adeiladau crefyddol nodedig | Gwerth uchel | Gwerth uchel | Gwerth uchel | Gwerth uchel |
| Eglwys Crist | Gwerth uchel | Gwerth uchel | Gwerth uchel | Gwerth uchel |
| Adeiladau cornel | Gwerth uchel | Gwerth canolig | Gwerth uchel | |
| Ffiniau hanesyddol | Gwerth canolig | Gwerth isel | Gwerth uchel | |
| Blaenau siopau | Gwerth canolig | Gwerth canolig | Gwerth canolig | |

Gwerth isel
Gwerth canolig
Gwerth uchel

**Trosolwg strategol**

Ardal gadwraeth yw 'ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, ac y mae'n ddymunol gwarchod neu wella'i chymeriad neu'i golwg' fel y nodir yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Gâr sicrhau talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal
(Adran 72). Mae gan Gyngor Sir Gâr ddyletswydd i lunio a chyhoeddi o dro i dro gynigion ar gyfer cadwraeth a chyfoethogi unrhyw rannau o'i hardal sy'n ardaloedd cadwraeth (Adran 71).

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r materion a'r bygythiadau allweddol a nodwyd wrth baratoi Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Heol Awst. Yn cyd-fynd â phob eitem mae argymhellion rheoli. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr ac nid yw'n allgau eitemau ychwanegol a allai gyflwyno eu hunain un ai'n gyfredol neu wrth ddatblygu'r Ardal Gadwraeth yn y dyfodol.

Mae'r materion yn ymwneud â'r eitemau hynny sy'n achosi niwed i olwg a/neu gymeriad yr ardal ar hyn o bryd. Bygythiadau yw'r eitemau hynny nad ydynt yn achosi niwed ar hyn o bryd ond a allai wneud hynny trwy unrhyw addasu ansensitif. Dylai'r eitemau hynny a nodir fel materion gael eu hystyried fel rhai sy'n cynrychioli bygythiad parhaol. Mae argymhelliad rheoli yn cyd-fynd â phob un, gyda'r bwriad o sicrhau cadw cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, ei harwyddocâd a'i diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig a'u cyfoethogi. Gallai'r argymhellion hyn ynghylch yr amgylchedd hanesyddol hysbysu cynhyrchu dogfen bolisi ehangach a manylach o ran rheoli'r ardal, i'w llunio gan Gyngor Sir Gâr.


Nodwyd y materion trwy gyfrwng ymweliadau safle, yn ogystal

ag ymgynghori â rhanddeiliaid, swyddogion y Cyngor Sir a'r cyhoedd. Maent yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, o ran cadwraeth y ffabrig hanesyddol sy'n bodoli ac effaith datblygiadau newydd ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys y rhai a nodwyd fel rhai sy'n effeithio ar barth y cyhoedd.

Darparwyd enghreifftiau hefyd o esiamplau da a drwg o reoli'r eitemau hyn i gynnig arweiniad ychwanegol wrth ystyried datblygu yn yr ardal. Mae'n bwysig darllen yr isod ar y cyd â'r holl ddogfennau polisi a chanllawiau perthnasol, yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033 Cyngor Sir Gâr a chanllawiau cynllunio atodol.

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| **1.0 Golygfeydd a lleoliad** | | | |
| 1.1 | Mae strydoedd ochr a thu cefn adeiladau yn rhan llawn cymeriad o'r Ardal Gadwraeth, yn cynnig cipolwg oddi wrth y brif ffordd drwodd. Mae'r ddirnadaeth nad yw pobl yn gweld y mannau hyn yn medru annog ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd hyn fel gadael sbwriel, difrodi adeiladau a'r parth cyhoeddus a graffiti. Mae'r ardaloedd hyn yn dioddef o ddiffyg cynnal a chadw cyffredinol hefyd. Enghraifft o hyn yw ym Mharc y Brodyr lle mae dirywio cyffredinol, diffyg cynnal a chadw rheolaidd ac addasiadau nad ydynt yn sympathetig bellach yn cael effaith negyddol ar yr Ardal Gadwraeth. | Dylid asesu cynigion datblygu yn ofalus i ddeall effaith y cynigion ar gymeriad a golwg y strydoedd ochr a thu cefn adeiladau, yn ogystal â golygfeydd allweddol a'r brif ffordd trwodd. Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i gadwraeth yr Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu yr ystyrir ei fod yn achosi niwed. |  |
| **2.0 Dymchwel adeiladau** | | | |
| 2.1 | Mae colli adeiladau yn llinell y stryd yn medru achosi toriadau a fydd yn tarfu ar y golygfeydd gweddlunol hir sy'n nodweddiadol o'r ardal a gall arwain at weddluniau talcen llwm. Er enghraifft, lle cafwyd gwared ar adeiladau i greu mynediad i geir trwodd i Barc y Brodyr, mae hyn wedi achosi gweddlun hir llwm sy'n weledol o'r ffordd, sy'n tynnu oddi wrth y gyffordd hon. | Mae llawer o adeiladau rhestredig ac adeiladau anrhestredig pwysig sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth, a thybir yn gryf y dylid cadw'r adeiladau hyn a'u nodweddion. Rhaid cyflwyno cais i ddymchwel adeilad i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw a gwella'r ardal gadwraeth a rhagdybir yn erbyn creu bylchau modern a fyddai'n tarfu ar y golygfeydd gweddlunol hir y llinell stryd wedi'u hen sefydlu. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| **3.0** | **Ailddatblygu** | | |
| 3.1 | Gall defnyddio deunyddiau modern nad ydynt yn cyd-fynd nac yn briodol i'r amrediad deunyddiau sy'n bodoli eisoes erydu cymeriad ac arwyddocâd hanesyddol yr Ardal Gadwraeth. Tra dylai adeilad fod o'i gyfnod, bydd cadw at amrediad deunyddiau gwreiddiol yr Ardal Gadwraeth yn sicrhau parhad. Yn yr un modd, mae adeiladau wedi'u dylunio'n wael yn achosi niwed i'r Ardal Gadwraeth; rhaid parchu nodweddion gwreiddiol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif i atal rhagor o niwed. | Dylai cynigion datblygu ymateb i a pharchu cymeriad a golwg unigryw'r Ardal Gadwraeth a'r lleoliad, a dylai eu graddfa, dwysder, uchder, ffurf, màs, cynllun gosod, lleoliad yn y plot datblygu, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl fod yn briodol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr Ardal Gadwraeth fod o safon uchel, o ran y dylunio a'r deunyddiau a ddefnyddir. Yn gyffredinol dylai'r holl waith ar adeiladau hanesyddol, yn cynnwys addasiadau ac estyniadau, ymateb yn gadarnhaol i'r steil pensaernïol gwreiddiol a'i leoliad a dylai gyfoethogi'r olwg draddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion o'r fath dylid cyfeirio at y Canllaw Creu Lleoedd 2020. |  |
| 3.2 | Mae plotiau cornel yn byrth pwysig i mewn i'r Ardal Gadwraeth, ac yn cynnig toriadau naturiol rhwng adeiladau ac yn dynodi'r cyffyrdd i ffyrdd eraill. Er enghraifft, mae'r adeiladau hynny ar y cyffyrdd â Heol Dŵr a Heol Mansel yn creu tirnodau gweledol ac yn dathlu'r mynedfeydd hyn. Mewn cymhariaeth, mae'r fynedfa i Barc y Brodyr yn llawer gwanach, wedi'i dra-arglwyddiaethu gan lain caled gyda'r adeiladau i'r naill ochr yn camu ymaith oddi wrth ei gilydd. | Dylai cynigion datblygu ymateb i a pharchu cymeriad a golwg unigryw'r Ardal Gadwraeth a'r lleoliad, a dylai eu graddfa, dwysder, uchder, ffurf, màs, cynllun gosod, lleoliad yn y plot datblygu, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl fod yn briodol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr Ardal Gadwraeth fod o safon uchel, o ran y dylunio a'r deunyddiau a ddefnyddir. Lle mae adeiladau cornel yn cael eu hailddatblygu neu eu hadnewyddu mae'n ofynnol cael dealltwriaeth o'u heffaith a sut y gallant gynorthwyo i gryfhau'r pwyntiau allweddol hyn. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 3.3 | Mae'r ddwy ardal a ailddatblygwyd yn fwyaf diweddar, yn Rhodfa Myrddin a'r Gwrthgloddiau, wedi effeithio'n sylweddol ar dreftadaeth archeolegol yr ardaloedd hyn ac wedi cael gwared ar unrhyw gysylltiad gweledol â'r safleoedd hanesyddol arwyddocaol hyn. | Dylai datblygu yn yr Ardal Gadwraeth gael ei asesu'n ofalus i ddeall effaith y cynigion ar arwyddocâd yr Ardal Gadwraeth. Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu a ystyrir yn niweidiol.<br><br>Ni ddylai datblygiad newydd yn yr Ardal Gadwraeth na'i lleoliad guddio na thynnu oddi wrth olygfeydd pwysig yn, tuag at nac o'r Ardal Gadwraeth. Tynnwyd sylw at olygfeydd a thirnodau pwysig yn y gwerthusiad, fodd bynnag, gallai eraill adnabod rhagor ohonynt.<br><br>Dylai cynigion sy'n meddu ar y potensial i effeithio neu fod yn rhan o olygfeydd pwysig sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr Ardal Gadwraeth, a'r asedau treftadaeth ynddi, gael eu hasesu'n ofalus. Dylai golygfeydd wedi'u cynhyrchu gan gyfrifiadur a'u dilysu yn dangos effeithiau potensial y cynigion fod yn ofynnol i ddangos yr effaith ar gymeriad a golwg yr ardal neu'r lleoliad. Wrth ystyried unrhyw gynnig datblygu arwyddocaol dylai'r effaith bosibl ar weddillion archeolegol gael ei hasesu'n broffesiynol a chael cyngor ynghylch y ffordd orau o gadw a diogelu'r gweddillion posibl hyn, a'u bod yn cael eu hadlewyrchu yn y datblygiad. |  |
| 3.4 | Mae'r pwysau am dai wedi arwain at fewnlenwi plotiau hanesyddol i'r de o Heol Awst, yn aml gyda dyluniad annodweddiadol nad yw'n ymateb i gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn wedi arwain at erydu'r lleiniau tir bwrdais ac alaiau hanesyddol hefyd a arferai arwain o Heol Awst i Barc y Brodyr. | Dylai cynigion datblygu ymateb i a pharchu cymeriad a golwg unigryw'r Ardal Gadwraeth a'r lleoliad, a dylai eu graddfa, dwysder, uchder, ffurf, màs, cynllun gosod, lleoliad yn y plot datblygu, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl fod yn briodol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr Ardal Gadwraeth fod o safon uchel, o ran y dylunio a'r deunyddiau a ddefnyddir. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 3.5 | Mae gweledig gweddluniau cefn ym Mharc y Brodyr wedi achosi i ardaloedd o addasiadau cyfoes a oedd yn cael eu hanwbyddu i achosi effaith arwyddocaol ar barth y cyhoedd, wedi'i bwysleisio gan golli waliau terfyn i ymyl y ffordd. Mae hyn yn cynnwys gosod grisiau dianc, estyniadau a lleiniau caled yn y cefn. | Dylid asesu cynigion datblygu yn ofalus i ddeall effaith y cynigion ar gymeriad a golwg y strydoedd ochr a thu cefn i adeiladau, yn ogystal â golygfeydd allweddol a'r brif ffordd trwodd. Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i gadwraeth yr Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu yr ystyrir ei fod yn achosi niwed. |  |
| **4.0 Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol** | | | |
| 4.1 | Mae topograffeg yr ardal yn golygu y gall toeon effeithio'n arwyddocaol ar olygfeydd a gall cynnwys eitemau fel erialau a dysglau lloeren ar y tolun erydu'r cymeriad, yn enwedig mewn tai teras unffurf. | Dylid ystyried gwneud defnydd ehangach o Gyfarwyddiadau Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau o'r fath. |  |
| 4.2 | Gall cyflwyno'r hyn sy'n ymddangos fel gwaith cymharol fach gael effaith gronnol ar yr adeilad cyfan ac ar leoliad yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys yr enghreifftiau a ganlyn:<br>Adnewyddu ffenestri gyda ffenestri PVC<br>Cyflwyno gwasanaethau newydd mewn lleoliad amlwg<br>Gosod dysglau lloeren<br>Colli pibellau dŵr glaw haearn bwrw<br>Adnewyddu llechi gyda theils coch neu glai a theils concrid<br>Colli simneiau<br>Colli drysau blaen paneli pren efo canopi<br>Colli ffiniau hanesyddol megis rheiliau a waliau cerrig rwbel | Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am y manylion pensaernïol megis ffenestri, a'r deunyddiau yn yr ardal, i gynorthwyo perchnogion cartrefi sy'n dymuno gwella eu heiddio mewn modd sy'n fuddiol i gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Dylai canllawiau dylunio gynnwys cyngor ynghylch ôl-osod mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes i wella eu perfformiad thermol a gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy, heb niweidio cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Gellid ystyried gwneud defnydd ehangach o Gyfarwyddiadau Erthygl 4 fel bod caniatâd cynllunio'n ofynnol ar gyfer addasiadau a restrir lle bo'n briodol. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 4.3 | Mae rhoi gro chwipio yn lle rendr calch traddodiadol wedi cael effaith sylweddol ar adeiadau a golygfeydd trwy'r Ardal Gadwraeth. | Dylid annog defnyddio deunyddiau traddodiadol megis rendr calch a dylid gwrthod ceisiadau sy'n dymuno cyflwyno plast a rendr amhriodol. |  |
| 4.4 | Ymddengys bod gwaith diawdurdod i adeiladau yn broblem gyffredin, megis gosod nodweddion newydd yn lle rhai hanesyddol, fel ffenestri a drysau. Mae hyn wedi arwain at erydu cyson cymeriad rhai rhannau'r Ardal Gadwraeth, yn enwedig fel y gwelir ym mhen gorllewinol Heol Awst. Lle bo gwaith diawdurdod wedi'i wneud gall hyn annog perchnogion eraill i wneud gwaith tebyg a gall arwain at effaith gronnol ar raddfa fwy. | Lle bo'n briodol byddai'r Cyngor yn cyflwyno camau gweithredu gorfodaeth i wneud iawn am waith diawdurdod. Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl yn cynnwys gwybodaeth am y lliwiau nodweddiadol, manylion pensaernïol fel ffenestri a'r deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion cartrefi sy'n dymuno gwella eu heiddo mewn modd sydd o fudd i gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Dylai canllawiau dylunio gynnwys cyngor ynghylch ôl-osod mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes i wella eu perfformiad thermol a gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy, heb niweidio cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Gellid ystyried gwneud defnydd ehangach o Gyfarwyddiadau Erthygl 4 fel bod caniatâd cynllunio'n ofynnol ar gyfer addasiadau a restrir lle bo'n briodol. |  |
| 4.5 | Ymddengys bod trwsio a chynnal a chadw adeiladau wedi dioddef trwy'r Ardal Gadwraeth gyfan gyda nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael. Oherwydd natur yr Ardal Gadwraeth mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar y golygfeydd a gall arwain at golli asedau treftadaeth arwyddocaol yn rhannol neu'n llwyr. | Cyhoeddi canllawiau ynghylch trwsio a chynnal a chadw adeiladau a strwythurau yn yr Ardal Gadwraeth yn briodol. | |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| **5.0** | **Dodrefn stryd, arwyddion, ffyrdd** | | |
| 5.1 | Gall cynnydd yn nwysder y traffig a chynlluniau ffyrdd wedi'u rheoli'n wael gael effaith niweidiol ar gymeriad yr ardal, gan achosi colli anghefnogaeth i fannau lle all pobl aros ac ymgynnull a fyddai fel arall yn caniatàu ennyd i fyfyrio a gwerthfawrogi. Mae nifer cyfyngedig o fannau croesi a phalmentydd cul yn achosi i strydoedd gael eu hysgaru oddi wrth ei gilydd ac yn cyfyngu gwerthfawrogiad yr adeiladau oherwydd bod dwysedd y traffig yn cuddio'r lloriau gwaelod. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos pen gorllewinol Heol Awst lle mae parcio ar y stryd yn rhwystro llif cerddwyr. | Dylid cynhyrchu a gweithredu strategaeth ar gyfer cyfleoedd am fwy o ardaloedd i gerddwyr yn unig a gwella cynllun gosod y ffyrdd. Dylid annog a chefnogi datblygiadau mawr newydd a fyddai'n gwella cysylltedd i gerddwyr a beicwyr ac yn ymgorffori mannau agored cyhoeddus. |  |
| 5.2 | Mae deunyddiau'r ffyrdd, palmentydd a ffiniau cyfoes yn rhai modern yn bennaf a gallant dynnu sylw oddi wrth yr adeiladau a'r parth cyhoeddus. Bellach mae nifer o fannau parth y cyhoedd allweddol wedi'u tra-arglwyddiaethu gan fannau parcio cerbydau, lleiniau caled a dodrefn stryd sy'n medru gwanhau pyrth allweddol i mewn i, o gwmpas a thrwy'r Ardal Gadwraeth. Er enghraifft, ffensys pren a waliau blociau concrid ym Mharc y Brodyr a chyffordd Heol Awst a Pharc y Brodyr. | Cyhoeddi canllawiau dylunio ynghylch dyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog dull cydlynus o ran goleuadau, deunyddiau, triniaeth ffiniau a dodrefn stryd. Dylid blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i wella golwg y strydoedd, yn cynnwys gwaredu eitemau diangen, cynnal a chadw'r gwaith paentio a chyflwyno deunyddiau arwyneb a dodrefn stryd priodol. |  |
| 5.3 | Ar hyn o bryd mae'r rhwydwaith ffyrdd yn creu ynys o gwmpas Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig. Er ei bod wastad wedi bod yn ynys yn y ffordd, mae cyflwyno gwahardd llwybr trwodd ar un ochr wedi cael gwared ar y cymesuredd ac wedi chwalu'r syniad o 'sgwâr y dref' yn y fan hon. | Dylid cynhyrchu a gweithredu strategaeth ar gyfer cyfleoedd am fwy o ardaloedd i gerddwyr yn unig a gwella cynllun gosod y ffyrdd. Dylid annog a chefnogi datblygiadau mawr newydd a fyddai'n gwella cysylltedd i gerddwyr a beicwyr ac yn ymgorffori mannau agored cyhoeddus. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 5.4 | Mae diffyg cydlyniad o ran triniaeth palmentydd, ffyrdd a llwybrau troed a diffyg cydlyniad wrth ddefnyddio deunyddiau, arwyddion, marciau ffyrdd a thriniaethau rhwystro. Gall hyn arwain at ddirywiad y cymeriad ym mharth y cyhoedd a newidiadau arwyddocaol rhwng ardaloedd a fyddai'n rhannu cysylltiad cryf â'i gilydd fel arall. Mae'r defnydd o waith trwsio clytio a dulliau trwsio amhriodol wedi arwain at ddirywiad cyffredinol y strydlun hefyd. | Cyhoeddi canllawiau dylunio ynghylch dyluniad a chynnal la chadw strydoedd a mannau cyhoeddus i annog dull cydlynus o ran goleuadau, deunyddiau, triniaeth ffiniau a dodrefn stryd. Dylid blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i wella golwg y strydoedd, yn cynnwys gwaredu eitemau diangen, cynnal a chadw'r gwaith paentio a chyflwyno deunyddiau arwyneb a dodrefn stryd priodol. |  |
| 5.5 | Mae diffyg dyluniad cyson ac ansawdd uchel i'r dodrefn stryd drwy'r Ardal Gadwraeth gyfan, yn cynnwys goleuadau stryd modern a gwelyau plannu blodau. Bu peth ymdrech i gyflwyno elfennau cyffredin fel yn achos yr hysbysfyrddau dehongli, ond ni fu hyn yn gyson trwy'r Ardal Gadwraeth. Byddai dull integredig o ran dodrefn stryd ansawdd uchel yn cynorthwyo i uno cymeriad yr ardal ac yn codi ansawdd parth y cyhoedd yn sylweddoli. Gallai cyflwyno rhagor o eitemau ym mharth y cyhoedd i gynnig mannau i bobl orffwyso ac ystyried yr hyn sydd o'u cwmpas fod o fudd hefyd. | Dylai arwyddion a dodrefn stryd fod o ddyluniad sensitif a dylid eu hintegreiddio i'r strydlun. Byddai dull cydlynus yn cynorthwyo i uno cymeriad yr ardal a chodi ansawdd parth y cyhoedd. Gellid cynhyrchu canllawiau pellach ynghylch dyluniad arwyddion a dodrefn stryd yn yr Ardal Gadwraeth, i sicrhau cyflawni dull cyson ac ansawdd uchel.<br><br>Mae sgôp i gyflwyno goleuadau stryd mwy traddodiadol, deunyddiau palmentydd traddodiadol a mwy o blannu yn y stryd ledled yr Ardal Gadwraeth. |  |
| **6.0** | **Triniaeth ffiniau a mannau parcio** | | |
| 6.1 | Mae'r cynnydd yn y galw am barcio ar y stryd a pharcio ar y safle wedi arwain at golli triniaethau terfyn hanesyddol i greu lle ar gyfer lleiniau caled a mannau parcio. Gall hyn wanhau ymyl galed y stryd sy'n nodwedd yr ardal, tarfu ar olygfeydd trwy, i mewn i ac allan o'r Ardal Gadwraeth a difrodi cynllun gosod hanesyddol yr Ardal Gadwraeth. Ceir enghraifft o hyn i'r dwyrain o'r gofeb lle mae llinell y stryd yn amrywio mewn dull neidr i greu mannau parcio. | Dylid cefnogi ailosod waliau terfyn traddodiadol. Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli waliau terfyn hanesyddol sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal. Gellid ystyried gwneud defnydd ehangach o Gyfarwyddiadau Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw addasiadau i waliau terfyn hanesyddol, beth bynnag eu huchder. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 6.2 | Mae mannau parcio ar y stryd ar hyd y rhan fwyaf o Heol Awst, ac i'r ddwy ochr yr ardal wedi'i lledaenu o gwmpas Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig. Mae hyn yn tra-arglwyddiaethu llawer o'r golygfeydd trwy'r Ardal Gadwraeth, ac yn amharu ar y golgyfeydd. | Dylid cynhyrchu a gweithredu strategaeth ar gyfer cyfleoedd am fwy o ardaloedd allweddol i gerddwyr yn unig a gwella cynllun gosod y ffyrdd a'r mannau parcio. |  |
| 6.3 | Dylid annog defnyddio cerrig sets ymehllach, ond lle mae deunydd palmant cyfoes wedi'i ddefnyddio mae'n arbennig o amlwg. Mae hyn yn digwydd yn nodweddiadol lle'r cyflwynwyd cerbiau gostwng. | Dylid cefnogi ac annog defnyddio cerrig sets trwy gynhyrchu canllawiau dylunio. |  |
| 6.4 | Gall cyflwyno deunyddiau modern i greu ffiniau newydd a lleiniau caled nad ydynt yn cyd-fynd â'r ardal gadwraeth neu nad yw eu hansawdd yn ddigonol wanhau'r cymeriad a tharfu ar y golygfeydd. | Dylai cynigion datblygu ymateb i a pharchu cymeriad a golwg unigryw'r Ardal Gadwraeth a'r lleoliad, a dylai eu graddfa, dwysder, uchder, ffurf, màs, cynllun gosod, lleoliad yn y plot datblygu, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl fod yn briodol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr Ardal Gadwraeth fod o safon uchel, o ran y dylunio a'r deunyddiau a ddefnyddir. Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am y manylion pensaernïol megis ffenestri, a'r deunyddiau yn yr ardal, i gynorthwyo perchnogion cartrefi sy'n dymuno gwella eu heiddio mewn modd sy'n fuddiol i gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| **7.0** | **Dyluniad blaenau siopau** | | |
| 7.1 | Mae cyfraniadau blaenau siopau i'r Ardal Gadwraeth yn arwyddocaol, a gall cynnwys dyluniadau blaen siop amhriodol gael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal. Mae nifer o enghreifftiau o flaenau siopau hanesyddol yn dal i fodoli yn yr Ardal Gadwraeth, ac maen nhw'n darparu cyfraniad pwysig i'r strydlun. Gallant fod yn ysbrydoliaeth i ddylunio yn y dyfodol ar sail treftadaeth. Mae'r nodweddion sy'n cael effaith negyddol ar yr Ardal Gadwraeth ar hyn o bryd yn cynnwys: | Lle bo blaen siop sy'n bodoli eisoes yn cynrychioli enghraifft dda o steil cynharach sy'n briodol i gymeriad yr ardal a'r adeilad dylid cadw'r blaen siop a'i uwchraddio yn hytrach na'i adnewyddu. Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli blaenau siopau ac arwyddion hanesyddol. Mae gan adnewyddu blaenau siopau modern nad ydynt yn gweddu gyda dyluniau mwy priodol y potensial i gyfoethogi adeiladau hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth yn fawr a dylid cefnogi hynny. |  |
| | Diffyg ystyried y berthynas rhwng y llawr gwaelod a'r lloriau uwchben, er enghraifft, atgynhyrchu lled y baeau a chydnabod y manylion pensaernïol a steil yr adeilad sy'n bodoli. | Dylai blaenau siopau newydd adlewyrchu graddfa a chyfrannedd yr adeilad. Dylid cyhoeddi canllawiau dylunio blaenau siopau ac arwyddion i gyfleu'r arferion gorau o ran deunyddiau a dyluniadau. | |
| | Ffasgia mawr nad ydynt yn gyfrannol ag adeiladau cyfagos, neu sy'n gorlethu tu blaen yr adeilad ac yn gorchuddio manylion hanesyddol. | Dylai blaenau siopau newydd adlewyrchu graddfa a chyfrannedd yr adeilad. Dylid cyhoeddi canllawiau dylunio blaenau siopau ac arwyddion i gyfleu'r arferion gorau o ran deunyddiau a dyluniadau. | |
| | Defnyddio arwyddion amhriodol, yn cynnwys arwyddion wedi'u goleuo. | Dylid cyhoeddi canllawiau dylunio blaenau siopau ac arwyddion i gyfleu'r arferion gorau o ran deunyddiau a dyluniadau. Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion amhriodol nad ydynt yn cyd-fynd â chymeriad traddodiadol a golwg yr ardal, yn cynnwys arwyddion wedi'u goleuo. | |

| Eitem | Mater | Rheoli |
| --- | --- | --- |
| | Defnyddio lliwiau neu ddeunyddiau cyfoes amhriodol, fel persbecs, PVC neu alwminiwm, nad yw eu natur adlewyrchol yn parchu amrediad y deunyddiau yn yr Ardal Gadwraeth nac adeiladau cyfagos. | Wrth adnewyddu blaenau siopau dylid defnyddio deunyddiau ansawdd uchel sy'n parchu deunyddiau traddodiadol yr adeilad. Dylid cyhoeddi canllawiau dylunio blaenau siopau ac arwyddion i gyfleu'r arferion gorau o ran deunyddiau a dyluniadau. |
| | Gweddluniau dau ddimensiw, yn cynnwys arwynebedd eang o wydr, sy'n tra-arglwyddiaethu'r ffasad ac nad ydynt yn cyd-fynd â'r gweddluniau uwchben. | Dylai blaenau siopau newydd adlewyrchu graddfa a chyfrannedd yr adeilad. Dylid cyhoeddi canllawiau dylunio blaenau siopau ac arwyddion i gyfleu'r arferion gorau o ran deunyddiau a dyluniadau. |
| | Colli'r deunydd blaen rhwng y palmant a ffenestr y siop ('stallriser') sy'n darparu sylfaen i'r blaen siop ac yn ei wreiddio yn y strydlun. | Lle bo blaen siop sy'n bodoli eisoes yn cynrychioli enghraifft dda o steil cynharach sy'n briodol i gymeriad yr ardal a'r adeilad dylid ei gadw a'i uwchraddio yn hytrach na'i adnewyddu, yn cynnwys yr holl nodweddion fel y deunydd o dan ffenestr y siop. |
| | Gosod caeadau diogelwch allanol ('external security shutters') sy'n medru effeithio ar olwg allanol adeilad ac ychwanegu at y ddirnadaeth o ddiffyg diogelwch. | Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn caeadau diogelwch amhriodol nad ydynt yn cyd-fynd â chymeriad traddodiadol a golwg yr ardal. Dylid cyhoeddi canllawiau dylunio blaenau siopau ac arwyddion i gyfleu'r arferion gorau o ran deunyddiau a dyluniadau. |
| | Cyflwyno adlenni neu ganopïau ar raddfa amhriodol, mewn deunyddiau anhraddodiadol yn aml, sy'n torri ar rhythm y tai teras a'r llinell adeiladau. | Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion amhriodol ac adlenni nad ydynt cyd-fynd â chymeriad traddodiadol a golwg yr ardal. Dylid cyhoeddi canllawiau dylunio blaenau siopau ac arwyddion i gyfleu'r arferion gorau o ran deunyddiau a dyluniadau, yn cynnwys sut i gynnwys adlenni a chanopïau. |
| | Pwysau brandio sy'n gysylltiedig â siopau cadwyn neu grŵp sy'n aml yn dilyn yr un dull i bawb, heb ystyried nodweddion unigol adeilad. | Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion amhriodol nad ydynt cyd-fynd â chymeriad traddodiadol a golwg yr ardal. |

| Eitem | Mater | Rheoli |
|---|---|---|
| | Colled arwyddion crog traddodiadol. | Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli arwyddion crog traddodiadol. Gellid annog cyflwyno arwyddion crog gan eu bod yn medru bod o fudd mawr i gymeriad gweddluniau stryd a lleihau'r pwysau i ddarparu arwyddion ychwanegol neu fawr iawn mewn mannau eraill. |
| **8.0** | **Golygfeydd a'r lleoliad** | |
| 8.1 | Gall fod yn anodd gwarchod y golygfeydd i mewn i ac allan o'r Ardal Gadwraeth, gan fod yr adeiladau hynny â'r potensial i effeithio ar olygfeydd allweddol yn medru bod y tu allan i ardaloedd gwarchodedig fel Ardal Gadwraeth ac weithiau ni ddaw eu heffaith yn amlwg tan ar ôl eu hadeiladu. Mae hyn yn ymwneud â chyflwyno adeiladau tal y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, neu'r rhai ar dir uwch sy'n effeithio ar olygfeydd pell i'r tirwedd y tu hwnt. Er enghraifft, tra bo llawer o leoliad yr Ardal Gadwraeth wedi'i warchod gan dai teras sy'n amgau llawer o'r prif flaenau stryd, mae topograffeg y tir yn caniatàu golygfeydd panoramig a phellgyrhaeddol ar gyffyrdd allweddol yn yr Ardal Gadwraeth. Mae'r golygfeydd pellgyrhaeddol feindyrau sy'n dilyn y ffordd Rufeinig trwy dref Caerfyrddin yn ychwanegu'n arwyddocaol at yr ardal. | Dylid asesu datblygu yn lleoliad yr Ardal Gadwraeth yn ofalus i ddeall effaith y cynigion ar arwyddocâd yr Ardal Gadwraeth. Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu a ystyrir yn niweidiol.<br><br>Ni ddylai datblygiadau newydd yn yr Ardal Gadwraeth na'i lleoliad guddio na thynnu oddi wrth olygfeydd pwysig yn, tuag at neu o'r Ardal Gadwraeth. Tynnwyd sylw at olygfeydd a thirnodau pwysig yn y gwerthusiad hwn, ond gallai eraill nodi rhagor ohonynt.<br><br>Dylai cynigion sy'n meddu ar y potensial i effeithio ar neu fod o fewn golygfeydd pwysig sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr Ardal Gadwraeth, a'r asedau treftadaeth ynddi, gael eu hasesu yn ofalus. Gallai golygfeydd wedi'u cynhyrchu gan gyfrifiadur a'u dilysu yn dangos effeithiau potensial y cynigion fod yn ofynnol i ddangos yr effaith ar gymeriad a golwg yr ardal neu'r lleoliad. |



| Eitem | Bygythiad | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 8.2 | Mae'r mannau gwyrdd sy'n bodoli yn yr Ardal Gadwraeth, er yn gymharol brin, yn darparu toriadau pwysig i'r adeiladau ac mae'n ofynnol parhau i'w gwarchod, yn enwedig os bydd datblygiadau newydd a gwaith addasu'n digwydd. Gall colli coed terfyn newid golygfeydd allweddol yn arwyddocaol ar hyd yr Ardal Gadwraeth gyfan. | Dylai mannau gwyrdd arwyddocaol gael eu cynnal yn weithredol, a dylid mabwysiadu prosesau rheoli sy'n sicrhau bod eu diddordeb arbennig a'u gwerth ecolegol yn cael ei gadw a'i wella. Mae sgôp i blannu rhagor o goed a phlanhigion eraill i gyfoethogi golwg yr Ardal Gadwraeth a'i photensial ar gyfer bioamrywiaeth a dylid annog hyn. Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal. |  |
| 8.3 | Mae effaith datblygu ar leoliad y Gwrthgloddiau yn meddu ar y potensial i fod yn arwyddocaol iawn wrth ystyried pwysigrwydd yr ardal. Bydd unrhyw ddatblygiad wrth gyrion yr heneb, neu â chysylltiad gweledol ar draws neu ohono, angen ei ystyried a'i reoli yn ofalus. Byddai'r safle yn elwa o gael ei reoli yn ogystal ag integreiddio'r dehongli, arwyddbst a chadwraeth i gadw a chyfoethogi ei bwysigrwydd. | Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu a ystyrir yn niweidiol. Ni ddylai datblygiadau newydd yn yr Ardal Gadwraeth na'i lleoliad guddio na thynnu oddi wrth olygfeydd pwysig yn, tuag at neu o'r Ardal Gadwraeth.<br><br>Dylai cynigion sy'n meddu ar y potensial i effeithio ar neu fod o fewn golygfeydd pwysig sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr Ardal Gadwraeth, a'r asedau treftadaeth ynddi, gael eu hasesu yn ofalus. Gallai golygfeydd wedi'u cynhyrchu gan gyfrifiadur a'u dilysu yn dangos effeithiau potensial y cynigion fod yn ofynnol i ddangos yr effaith ar gymeriad a golwg yr ardal a lleoliad yr asedau treftadaeth pwysig hyn. |  |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli |
| --- | --- | --- |
| **9.0** | **Dymchwel adeiladau a strwythurau** | |
| 9.1 | Gall dymchwel adeiladau sy’n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad neu olwg yr Ardal Gadwraeth, yn rhannol neu’n llwyr, erydlu ansawdd pensaernïol yr ardal. Gall hyn gynnwys adeiladau cyfan sy’n cael eu hailddatblygu neu rannau o adeiladau fel y simne, waliau terfyn neu estyniadau. | Mae llawer o adeiladau rhestredig ac adeiladau anrhestredig pwysig sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth, a thybir yn gryf y dylid cadw’r adeiladau hyn a’u nodweddion. Rhaid cyflwyno cais i ddymchwel adeilad i’r awdurdod cynllunio lleol.  |
| 9.2 | Gellir defnyddio cyflwr gwael adeiladau nad ydynt wedi bod yn cael eu defnyddio neu sydd wedi dioddef o gynnal a chadw gwael i roi pwysau ar yr Awdurdod Lleol i ddymchwel ac ailddatblygu. Gall hyn arwain at gamddealltwriaeth bod ailddatblygu ar raddfa fawr yn briodol, pan y gallai rheolaeth ofalus addasiadau yn y dyfodol adfer cymeriad gwreiddiol yr adeiladau hyn, cyfoethogi’r Ardal Gadwraeth ac osgoi colli carbon wedi’i ymgorffori wedi’i dreulio eisoes yn ystod yr adeiladu gwreiddiol. | Lle bo tystiolaeth o esgeuluso bwriadol neu ddifrod i ased treftadaeth ni ddylid ystyried cyflwr dirywiedig yr ased treftadaeth wrth wneud unrhyw benderfyniad. Mae llawer o adeiladau rhestredig ac adeiladau anrhestredig pwysig sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth, a thybir yn gryf y dylid cadw’r adeiladau hyn a’u nodweddion. Os cynigir dymchwel dylid ystyried y gylchred carbon gyfan, gan ystyried y carbon wedi’i wreiddio yn yr adeilad sy’n bodoli eisoes. Gallai fod yn briodol cadw ac addasu’r adeilad sy’n bodoli yn hytrach na’i adnewyddu. Dylid annog gofalu am ac ailddefnyddio adeiladau traddodiadol a hanesyddol yn yr ardal, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, trwy gyfrwng cynnal a chadw, gwell rheoli a gweithredu mesurau effeithlonrwydd ynnig. Dylid annog adfer nodweddion traddodiadol trwy gynhyrchu canllaw dylunio penodol ar gyfer yr Ardal Gadwraeth. Rhaid cyflwyno ceisiadau am ganiatâd i ddymchwel i’r awdurdod cynllunio lleol. |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| **10.0** | **Ailddatblygu** | | |
| 10.1 | Mae'r cysondeb o ran uchder lloriau, màs, deunyddiau, manylion pensaernïol, maint plotiau a'r berthynas â'r stryd yn achosi i unrhyw wyriadau o hyn gael effaith ar unwaith, yn enwedig lle bo golygfeydd pellgyrhaeddol. Lle mae'r manylion hyn yn amrywio rhwng lleoliad bythynnodd gweithwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y tai tref mwy o faint ac adeiladau masnachol a'r tirnodau a'r adeiladau crefyddol, dylid cydnabod hyn. | Dylai cynigion datblygu ymateb i a pharchu cymeriad a golwg unigryw'r Ardal Gadwraeth a'r lleoliad, a dylai eu graddfa, dwysder, uchder, ffurf, màs, cynllun gosod, lleoliad yn y plot datblygu, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl fod yn briodol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr Ardal Gadwraeth fod o safon uchel, o ran y dylunio a'r deunyddiau a ddefnyddir. Yn gyffredinol dylai'r holl waith ar adeiladau hanesyddol, yn cynnwys addasiadau ac estyniadau, ymateb yn gadarnhaol i'r steil pensaernïol gwreiddiol a'i leoli a dylai gyfoethogi'r olwg draddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion o'r fath dylid cyfeirio at y Canllaw Creu Lleoedd 2020. |  |
| **11.0** | **Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol** | | |
| 11.1 | Gallai colli nodweddion fel simneiau a chyflwyno ffenestri dormer newid y tolun yn sylfaenol a chael effaith niweidiol ar y golygfeydd, yn enwedig o gofio topograffeg yr ardal sy'n darparu golygfeydd pellgyrhaeddol yr adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth. | Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am y manylion pensaernïol megis ffenestri, a'r deunyddiau yn yr ardal, i gynorthwyo perchnogion cartrefi sy'n dymuno gwella eu heiddio mewn modd sy'n fuddiol i gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Gellid ystyried gwneud defnydd ehangach o Gyfarwyddiadau Erthygl 4 fel bod caniatâd cynllunio'n ofynnol ar gyfer addasiadau a restrir lle bo'n briodol. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli nodweddion traddodiadol sy'n cyfrannu at gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. |  |
| 11.2 | Gall dewis lliw amhriodol hefyd gael effaith negyddol ar olygfeydd o gymeriad. | | |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli |
|---|---|---|
| **12.0** | **Dodrefn stryd, arwyddion a ffyrdd** | |
| 12.1 | 'Llanast' stryd wedi'i greu gan ormodedd o arwyddion cyhoeddus, bolardiau, biniau sbwriel a rhwystrau, yn enwedig ar ochr y ffordd, sy'n medru achosi dryswch, cuddio golygfeydd a thynnu oddi wrth yr amgylchedd ehangach. | Cyhoeddi canllawiau dylunio ynghylch dyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog dull cydlynus o ran goleuadau, deunyddiau, triniaeth ffiniau a dodrefn stryd. Dylid blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i wella golwg y strydoedd, yn cynnwys gwaredu eitemau diangen, cynnal a chadw'r gwaith paentio a chyflwyno deunyddiau arwyneb a dodrefn stryd priodol. |
| 12.2 | Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan bwysig o hanes y dref a dylid cynnal y rhain pryd bynnag maent wedi goroesi. | Gellir cynhyrchu rhagor o ganllawiau ar ddylunio arwyddion yn yr Ardal Gadwraeth ac ymgorffori enwau lleoedd Cymraeg ar ffyrdd a lleoedd. |
| **13.0** | **Triniaethau terfyn a mannau parcio** | |
| 13.1 | Mae'r plot cornel i fynedfa'r Ardal Gadwraeth o'r farchnad wedi'i feddiannu gan Farmyard Nursery ar hyn o bryd, sy'n defnyddio'r gwagle i ddangos eu planhigion sydd ar werth a chreu arddangosfa werdd a deniadol yn y stryd. T Petai'r rhan yma yn cael ei defnyddio gan gwmni masnachol amgen ar gyfer parcio byddai'n niweidiol i'r Ardal Gadwraeth. |  |
| **14.0** | **Coed a Thirlunio** | |
| 14.1 | Mae colli coed o'r stryd a'r rhai ar ffiniau plotiau yn arwain at fylchau ac diffyg harmoni yn yr ardal amgylchynol. Mae ymylon gwyrdd a mannau agored yn darparu toriadau pwysig mewn ardal drefol galed fel arall a gallai eu colli greu niwed sylweddol i gymeriad yr ardal. | Mae sgôp i blannu rhagor o goed a phlanhigion eraill i gyfoethogi golwg yr Ardal Gadwraeth a'i photensial ar gyfer bioamrywiaeth a dylid annog hyn. Bydd y Cyngor yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal. |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli |
|---|---|---|
| 14.2 | Gall defnyddio coed, fflora a ffawna estron fod yn groes â'u hamgylchfyd os cânt eu dewis heb roi ystyriaeth i'w cyd-destun. | Dylid annog y defnydd o goed, fflora a ffawna brodorol pan mae cynlluniau tirlunio meddal yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol. |
| **15.0** | **Newid Defnydd** | |
| 15.1 | Gallai cyflwyno gweithgareddau masnachol mewn adeiladau preswyl blaenorol arwain at: | Byddai'n rhaid i unrhyw gynigion i newid defnydd adeiladau sy'n bodoli eisoes gael eu hystyried yn ofalus o ran yr effaith ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth, yn cynnwys unrhyw newidiadau cysylltiedig o ran y fynedfa danfoniadau, parcio a gwasanaethau allanol, megis unedau cyddwyso neu gyfarpar arall. Dylid annog parhad defnydd preswyl mewn strydoedd preswyl hanesyddol.  |
| 15.2 | Cyflwyno arwyddion nad ydynt yn cyd-fynd â chyfrannedd neu gynllun gosod yr adeilad. | |
| 15.3 | Cyflwyno ffenestri blaen siop sy'n gorlethu graddfa ddomestig yr adeilad ac yn arwain at golli'r ffabrig gwreiddiol. | |
| 15.4 | Gall rhannu perchnogaeth achosi dryswch o ran cynnal a chadw ac arwain at ddirywiad cyffredinol yr adeilad. | |

## 16.0 Cyffredinol

16.1 Archeoleg

Wrth ystyried unrhyw gynnig datblygu arwyddocaol dylid asesu'r effaith potensial ar weddillion archeolegol yn broffesiynol a chael cyngor sut i'w cadw a'u hamddiffyn orau. Dylid annog y defnydd o goed, fflora a ffawna brodorol pan mae cynlluniau tirlunio meddal yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol. Dylid ystyried hefyd sut y gallai hen ddefnyddiau, a strwythurau ac adeiladau a oedd ar y safle yn flaenorol ddylanwady ar ddylunio elfennau newydd.

16.2 Argyfwng newid yn yr hinsawdd

Dylid ystyried cynigion i ôl-osod i wella effeithlonrwydd ynni yn ofalus i sicrhau eu bod yn gymhathus â deunyddiau adeiladu traddodiadol ac yn cydweddu o ran eu swyddogaeth a'u harwyddocâd.
Os cynigir dymchwel dylid ystyried y gylchred carbon gyfan, gan ystyried y carbon wedi'i wreiddio yn yr adeilad sy'n bodoli eisoes. Gallai fod yn briodol cadw ac addasu'r adeilad sy'n bodoli yn hytrach na'i adnewyddu. Dylid annog gofalu am ac ailddefnyddio adeiladau traddodiadol a hanesyddol yn yr ardal, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, trwy gyfrwng cynnal a chadw, gwell rheoli a gweithredu mesurau effeithlonrwydd ynnig. Dylid annog adfer nodweddion traddodiadol trwy gynhyrchu canllaw dylunio penodol ar gyfer yr Ardal Gadwraeth.

16.3 Gweithredu ac Adolygu

Mae angen cadw at yr holl ddyletswyddau statudol dan y Deddfau Cynllunio yn deillio o ddynodi'r ardal yn Ardal Gadwraeth. Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r argymhellion a wneir yma a lllunio cynllun rheoli ffurfiol (bwriedir i'r adroddiad hwn fod yn sylfaen iddo) i'w adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y polisïau'n parhau'n ddefnyddiol ac yn berthnasol. Dylai'r Cyngor ymdrechu i gynnal astudiaethau perthnasol eraill a chynhyrchu canllawiau pellach fel y nodwyd yma, lle bo'r adnoddau ar gael i wneud hyn.

16.4 Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth

Dylai ymgeiswyr gyflwyno asesiad o'r effaith ar dreftadaeth lle bo cynnig cynllunio'n cael ei ystyried a allai effeithio ar yr Ardal Gadwraeth (un ai y tu mewn i'w ffiniau neu ei lleoliad) neu i ased treftadaeth yn yr Ardal Gadwraeth.

## 9.0 Cyfleoedd

Mae'r cyfleoedd a ganlyn yn cyfeirio at y posibiliadau a nodwyd ar gyfer dadwneud niwed, gwella'r ardal a'i gwerthfawrogi neu reoli datblygiad. Nodwyd y rhain trwy baratoi'r ddogfen hon a'r adran materion, bygythiadau a rheoli flaenorol.

1. Mae'r Gwrthgloddiau yn rhan bwysig o stori Caerfyrddin a Heol Awst ond mae wedi'i ynysu a'i anwybyddu, er niwed iddo'i hun a'r Ardal Gadwraeth. Byddai'r safle yn elw o gael ei reoli yn ogystal â chynnwys dehongli, arwyddbyst a diogelu i gadw a chyfoethogi ei bwysigrwydd.

2. Mae Cofeb y Ffiwsilwyr Cymreig yn rhan arwyddocaol o'r treflun yn ogystal â bod yn heneb hanesyddol pwysig yn ei rinwedd ei hun. Trwy ailddatblygu a chyflwyno dyluniad parth y cyhoedd ansawdd uchel, lleihau'r mannau parcio ac adfer cymesuredd gallai fod yn ganolbwynt i 'sgwâr' y dref newydd ac yn ardal atyniadol o barth y cyhoedd.

3. Nid yw cyffordd Heol Awst a Pharc y Brodyr yn darparu llwybr atyniadol nac apelgar i Heol Dŵr a Heol Morley ar hyn o bryd. Gallai ailddatblygu'r parth y cyhoedd yn ardal y porth yma gynorthwyo i gryfhau'r gornel yma ac annog pobl i symud trwy'r Ardal Gadwraeth ar y pwynt hwn.


4. Gallai ffordd wasanaeth Parc y Brodyr gynnig llwybr trwodd diddorol a hawddgar petai'n cael ei wneud yn fwy amlwg a deniadol. Gallai hyn gael ei gyflawni trwy hysbysfyrddau dehongli, arwyddbyst neu dirlunio.

5. Mae llawer o'r alaiau hanesyddol rhwng Heol Awst a Pharc y Brodyr wedi'u cau i ddarparu dull dianc eilaidd o fflatiau llawr cyntaf. Pan gynigir cyfleoedd i wneud hynny, byddai adfer y llwybrau hyn yn cynorthwyo i hybu symud trwodd ac yn rhoi hwb yn ei dro i'r ardal y tu ôl i Heol Awst.

6. Gallai cyflwyno peth gwyrddni neu goed ar y stryd gynorthwyo i dorri dwysedd uchel y parth trefol, er y byddai angen ystyried y rhain yn ofalus iawn yng nghyswllt symudiadau cerddwyr, golygfeydd a gwasanaethau.

7. Gallai paratoi canllaw cynnal a chadw i gynorthwyo perchnogion adeiladau i ofalu am eu hadeiladau annog a chynorthwyo pobl i wneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd, gan atal colled potensial ffabrig treftadaeth y gellid ei osgoi a chynorthwyo i amddiffyn y golygfeydd trwy'r ardal.


1


2


3


4


5



# Atodiadau

## Atodiad I: Llyfryddiaeth


**Cyhoeddiadau**

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 (legislation.gov.uk)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 well-being-of-future-generations-wales-act-2015-the-essentials.pdf (gov.wales)

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11, Chwefror 2021 Planning Policy Wales - Edition 11 (gov.wales)

Polisi Cynllunio Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017 Planning Policy Wales Note 24 May 2017 (gov.wales)

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017 Managing Change in World heritage Sites in Wales (gov.wales)

Egwyddorion Cadwraeth Cadw o ran Rheoli Cynaliadwy'r Amgylchedd HAnesyddol yng Nghymru Conservation Principles Doc ENG (gov.wales)

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De Orllewin Cymru, Medi 2021 Microsoft Word - SWW Regional Economic Delivery Plan FINAL (gov.wales)

Cynllun Cyflawni ac Adfer Economaidd Sir Gâr, Ebrill 2021 Report.pdf (gov.wales)

Manning,A, Cambria Archaeology. 1998, 'Carmarthen Greyfriars, Carmarthen; The 1997 rescue excavations and watching brief on the site of the choir and area north of the Friary' 1997 REPORT.PDF (dyfedarchaeology.org.uk)

Wilsom, S, Cotswold Archaeology. 2019, 'Carmarthen Police Station; Archaeological Evaluation and Strip, Map & Record' Microsoft Word - 6791 Carmarthen Police Station Eval Report (cotswoldarchaeology.co.uk)

Canllaw Creu Lleoedd 2020 PlacemakingGuideDigitalENG. pdf (dcfw.org)

**Gwefannau**

British History Online, cyhoeddwyd yn wreiddiol gan S Lewis, Llundain, 1849, Carmarthen-Carmarthenshire, Carmarthen - Carmarthenshire | British History Online (british-history.ac.uk) , 1 Mawrth 2022

Historic UK, 2021, Carmarthen-Merlin's Fortress, Carmarthen – Merlin's Fortress - Historic UK (historic-uk.com), 1 Mawrth 2022

Cyngor Tref Caerfyrddin, Tref Myrddin – Cyngor Tref Caerfyrddin 1 Mawrth 2022

British Listed Buildings, dyddiadau amrywiol, British Listed Buildings - History in Structure, 1-10 Mawrth 2022

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2021, Mapiau Degwm Cymru, Welsh Tithe Maps - Home (library.wales) 14 Mawrth 2022


Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, 2021, Mapiau Arolwg Ordnans, dyddiadau amrywiol, Map Finder - with Marker Pin - Map Images - National Library of Scotland (nls.uk) 1 - 14 Mawrth 2022

# Atodiad II: Geirfa

| Talfyriad | Term ffurfiol | Diffiniad |
|---|---|---|
| A4D | Cyfarwyd dyd Erthygl 4 | Mesur, a gychwynnir gan awdurdod lleol, lle mae materion gwaith a fyddai fel arfer yn cael eu caniatáu o dan ddeddfwriaeth gynllunio Gorchmynion Datblygu Cyffredinol yn cael eu dwyn o dan reolaeth yr adran gynllunio. |
| BAR | Adeilad Mewn Perygl | Cofrestr adeiladau, a gynhelir gan awdurdodau lleol (a gefnogir gan Historic England) sy'n cynnwys adeiladau a strwythurau sydd mewn perygl o ddadfeilio, dymchweliad neu golled arall. Fel arfer mae'n nodi rhywfaint o risg ac yn nodi'r math o gamau gweithredu a ystyrir yn angenrheidiol i unioni'r broblem. |
| AG | Ardal Gadwraeth | Ardal, a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol, y mae ei chymeriad yn ddymunol i'w chadw neu wella |
| GAG | Gwerthusiad Ardal Gadwraeth | Adroddiad sy'n asesu cymeriad ac effeithiolrwydd yr AG ar adeg benodol |
| CPO | Gorchymyn Prynu Gorfodol | Offeryn cyfreithiol ar gyfer prynu tir yn orfodol gan awdurdod lleol neu asiantaeth y llywodraeth ar gyfer diben ddiffiniedig ac am gyfradd deg |
| | Ffasgia | Y gofod ble mae arwydd yn cael ei arddangos, fel arfer uwchben siop |
| CSC | Cyngor Sir Caerfyrddin | |
| GDO | Gorchymyn Datblygu Cyffredinol | Gorchymyn, o dan ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol, sy'n nodi'r dosbarthiadau o ddatblygiadau sy'n 'ddatblygiad a ganiateir' ac felly nad oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol arnynt fel arfer |
| | Cadw | Y sefydliad sy'n gyfrifol am warchod adeiladau, strwythurau, tirwedd a safleoedd treftadaeth hanesyddol yng Nghymru |
| ARh | Adeilad Rhestredig | Adeilad o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol a warchodir trwy ei gynnwys ar restr adeiladau o'r fath a gynhelir gan Cadw. Bydd yr adeilad yn cael ei raddio – gradd 1 am y pwysicaf, Gradd 2* ar gyfer y pwysicaf nesaf neu radd 2 am y gweddill sy'n cynnwys tua 95% o'r cyfanswm |
| | Llain Tir Bwrdais | Mae llain tir tir bwrdais fel arfer yn cael ei nodweddu fel llain hir â wal, gardd neu iard, y tu ôl i adeilad, y mae ei flaen yn wynebu un o'r strydoedd hŷn mewn tref neu ddinas â tharddiad canoloesol |

| Talfyriad | Term ffurfiol | Diffiniad |
|---|---|---|
| LBC | Caniatâd Adeilad Rhestredig | Cymeradwyaeth i wneud gwaith ar adeilad rhestredig (a fyddai fel arall yn drosedd) a gyhoeddwyd gan yr awdurdod lleol ac ar ôl ymgynghori â rhestr benodol o gyrff a sefydliadau amwynder cenedlaethol a lleol |
| CLI | Cynllun Lleol | Dogfen a baratowyd gan neu ar ran yr awdurdod lleol yn nodi ei bolisi cynllunio am gyfnod penodol i ddod; bydd yn cynnwys polisi ynghylch yr amgylchedd naturiol, cadwraeth, priffyrdd, datblygu adeiladau ymhlith ystod eang o bynciau eraill. |
| PPW | Polisi Cynllunio Cymru | Polisi cenedlaethol yn amlinellu canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio |
| Deddf P (LBCA) 1990 | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Deddf gydgrynhoi a ddaeth â darnau amrywiol blaenorol ynghyd o ddeddfwriaeth mewn un Ddeddf Seneddol |
| | Hysbysiad Atgyweirio | Hysbysiad a gyhoeddwyd o dan adrannau 47 a 48 o Ddeddf P(LBCA) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion neu feddianwyr wneud atgyweiriadau brys i adeiladau rhestredig |
| Sn215 | Hysbysiad Adran 215 | Hysbysiad o dan y deddfau cynllunio y gall awdurdod lleol ei roi i berchnogion neu ddeiliaid ar gyfer tacluso tir neu adeiladau y bernir eu bod yn niweidiol i amwynder ardal |
| SPG | Canllawiau Cynllunio Atodol | Dogfen sy'n nodi polisi penodol i safle neu ardal y gellir ei defnyddio fel tystiolaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio perthnasol. Bydd cynnwys y ddogfen wedi'i baratoi gyda'r bwriad penodol hwn a bydd angen ei fabwysiadu'n ffurfiol fel un o'i gyfres o ddogfennau cynllunio gan yr awdurdod dan sylw |
| TPO | Gorchymyn Cadw Coed | Gorchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru i warchod coed penodol, grwpiau o goed neu goetiroedd er budd amwynder. Mae gorchymyn yn gwahardd torri, tocio, brigdorri, dadwreiddio, difrodi'n fwriadol a dinistrio coed yn fwriadol heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol |

# Atodiad III: Mapiau




G

0 20 40 80


Graddfa m

ALLWEDD:
- Ffiniau Ardal Gadwraeth Heol Awst
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Adeiladau/mannau cadarnhaol
- Adeiladau/mannau amharol

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

Ardal Gadwraeth Heol Awst

Cyfraniad Adeiladau a Mannau




G

0 20 40 80


Graddfa m

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:
- Ffiniau Ardal Gadwraeth Heol Awst
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Ardaloedd Cadwraeth Cyfagos
- Adeiladau rhestredig Gradd II*
- Adeiladau rhestredig Gradd II
- Henebion Cofrestredig
- Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig yng Nghymru
- Adeiladau a strwythurau pwysig heb eu rhestru

Ardal Gadwraeth Heol Awst

Map o'r Dynodiadau




G


0 20 40 80
Graddfa m

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:
- Ffiniau Ardal Gadwraeth Heol Awst
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Mannau gwyrdd
- Gerddi preifat / lled-breifat
- Heneb Cofrestredig
- Coed
- Grŵp o goed
- Gorchymyn Cadw Coed (TPO)

Ardal Gadwraeth Heol Awst

Coed, Mannau Gwyrdd, Parciau a Gerddi




G

0 20 40 80


Graddfa m

ALLWEDD:
- Ffiniau Ardal Gadwraeth Heol Awst
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Maes cyfle

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

Ardal Gadwraeth Heol Awst

Map Cyfleoedd




G

0 20 40 80

Graddfa m


ALLWEDD:

- Ffiniau Ardal Gadwraeth Heol Awst
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Ardal i gerddwyr yn unig
- Blaen siopau hanesyddol
- Nodwedd o'r treflun
- Celfi stryd
- Meindwr
- Tŵr

## Ardal Gadwraeth Heol Awst

Llecynnau Cyhoeddus


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377




G

0 20 40 80

Graddfa m

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:

- Ffiniau Ardal Gadwraeth Heol Awst
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Ardaloedd sy'n cynnig ymdeimlad o le
- Mannau gwyrdd cadarnhaol
- Toeau arwyddocaol
- Y prif dirnod / adeiladau allweddol
- Golygfeydd o'r stryd
- Golygfeydd caeëdig
- Golygfeydd terfynedig
- Golygfeydd allwyredig


## Ardal Gadwraeth Heol Awst

Dadansoddi Gofodol

## Atodiad IV: Adolygu’r Ffiniau

Fel rhan o’r Gwerthusiad Ardal Gadwraeth a’r Cynllun Rheoli hwn, ymgymerwyd ag adolygiad o ffiniau’r Ardal Gadwraeth er mwyn deall y rhesymeg ar gyfer dynodi’r ardal, a pha un ai a oes datblygiad ers ei dynodiad cychwynnol yn golygu y dylid nawr ail-lunio’r ffin. Gwnaethpwyd yr adolygiad hwn drwy gyfres o arolygon safle, yn ogystal ag ymchwil bwrdd gwaith ac ymgynghori â’r Awdurdod Lleol, rhanddeiliaid a’r cyhoedd.

Mae pum addasiad a awgrymir ar gyfer Ardal Gadwraeth Heol Awst, a nodir pob un ohonynt ar y map canlynol. Mae lleoliad a’r rhesymau dros yr addasiadau hyn wedi’u nodi isod:




Ffiniau Ardal Gadwraeth Heol Awst
Y newid arfaethedig 1
Y newid arfaethedig 2
Y newid arfaethedig 3
Y newid arfaethedig 4
Y newid arfaethedig 5

**Ardal 1 – Capel Heol Dŵr**

*Tynnu ymaith yr Ysgol Sul*

Mae Capel Heol Dŵr yn gapel Calfinaidd rhestredig Gradd II* a adeiladwyd ym 1831 ac mae'n rhan o Ardal Gadwraeth Heol Dŵr. Mae'r Ysgol Sul sy'n gysylltiedig â'r capel wedi'i gosod y tu ôl i'r capel ac mae'n hygyrch o'r fynedfa ar Heol Dŵr. Argymhellir tynnu'r Ysgol Sul ymaith o Ardal Gadwraeth Heol Awst a'i chynnwys yn Ardal Gadwraeth Heol Dŵr fel bod y capel a'r Ysgol Sul o dan yr un dynodiad.



**Ardal 2 – Rhodfa Myrddin**

*Tynnu ymaith Rhodfa Myrddin, yr iard wasanaethu gysylltiedig yn y cefn a'r teras preswyl cyfoes*

Mae'r ardal hon yn cynrychioli ailddatblygu cyfoes ar ffin ddwyreiniol yr Ardal Gadwraeth ac nid yw'n perthyn i gymeriad na chynllun gosod hanesyddol blaenorol yr ardal hon. Felly awgrymwn dynnu'r ardal ymaith o'r Ardal Gadwraeth gan nad yw'n meddu ar arwyddocâd hanesyddol na phensaernïol mwyach.



**Ardal 3 – Rhodfa'r Farchnad**

*Ychwanegu cyffordd cornel*

Mae cyffyrdd i Ardaloedd Cadwraeth yn darparu mannau allweddol sy'n medru dathlu a chyfoethogi symudiad pobl trwy'r ardal a'u dealltwriaeth o'r gwagle. Bydd cynnwys y corneli hyn yn cynorthwyo i ddiogelu unrhyw ddatblygiad potensial yn y dyfodol i sicrhau y bydd yn cadw ac yn gwella'r nodweddion sy'n gwneud yr Ardal Gadwraeth yn arbennig.



**Ardal 4 – Parc y Brodyr**

*Ychwanegu cyffordd i'r Gwrthgloddiau*

Mae'r ychwanegiad bach hwn yn dod ag ymyl deheuol rhodfa Parc y Brodyr i mewn i'r Ardal Gadwraeth yn ogystal â'r gyffordd a'r fynedfa i safle'r Gwrthgloddiau. Bydd cyfoethogi'r fynedfa i'r safle pwysig hwn yn cynorthwyo i ddiogelu ei arwyddocâd er budd yr Ardal Gadwraeth ac yn arwain at ei wella.



Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Gadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i:

- Awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ar ardaloedd lle mae'n ddymuno cadw a gwella, a'u dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth (Adran 69) [1]
- Awdurdodau cynllunio lleol adolygu eu gweithgareddau yn y gorffennol yn y maes hwn, yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth sy'n bodoli eisoes, ac ychwanegu rhagor o Ardaloedd Cadwraeth (Adran 69 [2])
- Awdurdodau cynllunio lleol lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadwraeth a gwella Ardaloedd Cadwraeth ac ymgynghori â'r cyhoedd yn yr ardal dan sylw, gan ystyried y farn a fynegir (Adran 71 [1 a 2])
- Wrth weithredu ei swyddogaethau cynllunio yn yr Ardal Gadwraeth bydd awdurdodau cynllunio lleol yn talu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno (Adran 72 [1])

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus, ac mae'n rhaid iddynt nodi a chyhoeddi amcanion llesiant wedi'u dylunio i uchafu eu cyfraniad wrth gyflawni pob un o'r saith nod llesiant.

Un o'r nodau hyn yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a ddisgrifir fel 'cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg'. Mae synergedd clir rhwng y dyletswydd penodol i gadw neu wella Ardaloedd Cadwraeth, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 1990, Adran 7, a'r dyletswydd cyffredinol i hybu a diogelu treftadaeth, fel y nodir yn Neddf 2015. Gall Ardaloedd Cadwraeth wedi'u diogelu a'u gwella'n briodol wella ansawdd bywyd a llesiant i bawb.

Polisi Cynllunio Cymru Chwefror 2021

- Mae'r amgylchedd hanesyddol wedi'i lunio o nodweddion hanesyddol unigol sy'n cael eu hadnabod ar y cyd fel asedau hanesyddol. Ystyrir bod Ardaloedd Cadwraeth yn asedau hanesyddol.
- Mae paragraff 6.1.6 yn datgan bod amcanion penodol Llywodraeth Cymru o ran yr amgylchedd hanesyddol yn ceisio: [...] cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, tra ar yr un pryd eu cynorthwyo i barhau'n fywiog ac yn llewyrchus.
- Mae paragraff 6.1.14 yn nodi y dylid cael rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadwraeth a gwella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth neu eu lleoliadau. Mae rheoli ardaloedd cadwraeth yn gadarnhaol yn angenrheidiol i gadw neu wella eu cymeriad a'u golwg a gwireddu eu gwerth treftadaeth yn llawn. Dylai awdurdodau cynllunio sefydlu eu meini prawf eu hunain ar gyfer adolygu ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes a/neu rai newydd, a'u ffiniau. Gall paratoi gwerthusiad ardal gadwraeth a chynlluniau rheoli gynorthwyo awdurdodau cynllunio wrth weithredu eu swyddogaethau rheoli datblygu.
- Mae paragraff 6.1.15 yn nodi bod rhagdybiaeth cryf yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad, yn cynnwys hysbysebion, sy'n niweidio cymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i raddau annerbyniol. Mewn achosion eithriadol gellid goresgyn y rhagdybiaeth o blaid datblygu a ystyrir yn ddymuno ar sail budd y cyhoedd.
- Mae paragraff 6.1.16 yn nodi y gellir cyflawni cadwraeth neu wella ardal gadwraeth trwy ddatblygu sydd un ai'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad neu olwg ardal neu'n eu gadael heb eu niweidio. Gellir ystyried camau lliniaru hefyd a allai arwain at effaith niwtral neu effaith cadarnhaol yn gyffredinol o ran datblygiad arfaethedig mewn ardal gadwraeth.
- Mae paragraff 6.1.17 yn nodi bod dynodiad ardal gadwraeth yn cyflwyno rheolaeth dros ddymchwel llwyr neu sylweddol adeiladau anrhestredig yn yr ardaloedd hyn, ond nid yw dymchwel rhannol angen caniatâd adeilad rhestredig. Mae'r gweithdrefnau yr un fath yn eu hanfod ag ar gyfer caniatâd ardal gadwraeth, a dylid ystyried effeithiau ehangach dymchwel ar yr hyn sy'n amgylchynu'r adeilad ac ar y diddordeb pensaernïol, archeolegol neu hanesydd yr ardal gadwraeth yn ei chyfanrwydd. Hefyd dylid ystyried strwythurau adnewyddu. Dylid profi'r cynigion yn erbyn gwerthus iadau'r ardal gadwraeth, lle bo hynny ar gael.
- Mae paragraff 6.1.29 yn nodi y dylai cynlluniau datblygu ystyried cynnwys polisïau lleol penodol sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Rhaid i'r rhain fod yn benodol ac ymwneud â'r elfennau hynny a ystyrir yn ystyriaethau pwysig o bersbectif cynllunio lleol. Gallent gynnwys polisïau lleol penodol ynghylch:
- Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth – gallai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau lleol penodol ar gyfer cadw'r amgylchedd hanesyddol adeiledig, yn cynnwys diogelu neu wella adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth a'u lleoliadau. Gallent gynnwys polisïau yn ymwneud ag ailddefnyddio neu ddatblygu newydd hefyd sy'n effeithio ar ardaloedd hanesyddol a/neu adeiladau penodol, a allai gynorthwyo gyda sicrhau adfywio trefol a gweldig. Ni ddylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau ar gyfer dynodi ardaloedd

cadwraeth newydd neu estyniadau i ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes, ac ni ddylent gynnwys datganiadau na chynigion manwl ar gyfer ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes. Dylid cadw'r broses o asesu, diffinio manwl neu adolygu ffiniau a llunio cynigion ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol ar wahân i'r cynllun datblygu.

- Mae paragraff 1.36 yn nodi bod gan Weinidogion Cymru bwerau wrth gefn i wneud eu Gorchmynion Diddymu/Addasu neu Ddirwyn i Ben eu hunain, ond dim ond yn dilyn ymgynghori â'r awdurdod cynllunio. Byddai ymyriad o'r fath yn gwrthdroi dyfarniad awdurdod cynllunio ar fater sydd yn gyfrifoldeb iddo yn y lle cyntaf, a gellir cyfiawnhau hyn dan amgylchiadau eithriadol yn unig. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylid ystyried gweithredu o'r fath yn unig lle'r ystyrir bod y penderfyniad gwreiddiol yn anghywir, felly byddai'n achosi newid i fudd y cyhoedd yn ehangach. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i Weinidogion Cymru yn defnyddio pwerau diofyn o ran caniatâd adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.

Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017 Mae'r ddogfen hon yn nodi:

Bod awdurdodau cynllunio lleol yn gyfrifol am ddynodi ardaloedd cadwraeth a'u bod yn meddu ar yr wybodaeth ddiffiniol ynghylch eu ffiniau.

Gall awdurdod cynllunio lleol ddatblygu Canllawiau Cynllunio Atodol i'w cynorthwyo gyda chyflawni polisïau yn y cynllun datblygu lleol. Gallai canllawiau penodol yn berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol gynnwys pethau fel Cynlluniau Rheoli Ardal Gadwraeth.

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol nodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymuno cadw neu wella eu cymeriad a'u golwg, a'u dynodi fel ardaloedd cadwraeth. Dylent adolygu eu hardaloedd o dro i dro i ystyried a oes angen mwy o ddynodiadau neu ddiwygiadau. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ddynodi ardaloedd cadwraeth hefyd, yn dilyn ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol. Mae hwn yn bŵer wrth gefn a ddefnyddir mewn achosion eithriadol, er enghraifft, pan fo ardal yn un â mwy na diddordeb lleol yn unig.

6.2 Mae dynodi ardal gadwraeth yn rhoi'r sylfaen ar gyfer polisïau wedi'u dylunio i gadw neu wella holl agweddau cymeriad neu olwg yr ardal sy'n diffinio diddordeb arbennig yr ardal; gallai hyn gynnwys patrwm yr anheddu a threfn y gwagle a'r llwybrau yn ogystal â steil a mathau o adeiladau, a'r deunyddiau a ddefnyddir a'r manylion. Gallai seilwaith gwyrdd fod yn bwysig hefyd, ond nid yw'r dynodiad ardal gadwraeth yn debygol o fod yn ddull priodol o ddiogelu nodweddion tirlunio, ac eithrio lle maent yn ffurfio rhan annatod o'r amgylchedd hanesyddol adeiledig.

6.3 Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadwraeth a gwella ardaloedd cadwraeth mewn cynllun rheoli o dro i dro. Yn unol â'r arfer orau, dylid gwneud hyn bob pum i 10 mlynedd. Mae'n arfer da i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu'r cynllun rheoli fel canllaw cynllunio atodol. Hefyd rhaid rhoi sylw arbennig i'r dymuniad i gadw neu wella ardaloedd cadwraeth wrth wneud penderfyniadau cynlluniau. Dan amgylchiadau eithriadol, lle nad yw rhan neu'r cyfan o ardal gadwraeth yn meddu ar y diddordeb arbennig a arweiniodd at ei ddynodi mwyach, gellid diwygio neu ganslo'r dynodiad.

6.4 Gwerthusiad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer unrhyw gynigion i gadw a gwella. Mae'n darparu darlun manwl o ddiddordeb arbennig ardal ac yn nodi'r cyfleoedd a'r blaenoriaethau gweithredu a all fod yn sylfaen ar gyfer cynllun rheoli manylach. Dylai gynnwys dadansoddi'r polisi ac anghenion rheoli'r ardal, yn cynnwys asesiad o effeithiolrwydd y mesurau rheoli cynllunio cyfredol, yr angen am ddiogelu atodol a nodi ffyrdd y gellir cadw neu wella'r cymeriad arbennig. Bydd gan bolisïau cynllun datblygu lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu sy'n berthnasol i ardaloedd cadwraeth sail gadarnach a byddant yn gwneud cyfraniadau mwy cadarnhaol i nodau tymor hir os diffinnir cymeriad pob ardal gadwraeth a bod y polisïau ar gyfer cadwraeth a gwella'r ardal yn cael eu nodi'n fanwl mewn cynllun rheoli.

Gellir ystyried hefyd p'un ai y dylid cyflwyno Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn yr ardaloedd hyn ai peidio.

6.5 Mae natur ardaloedd cadwraeth yn golygu bod ganddynt randdeiliaid lluosog a dylai trefniadau rheoli ddarparu cyfleoedd i gyfranogi ac ymgysylltu wrth lunio'r cynllun a gwneud penderfyniadau. Bydd cynigion ar gyfer cadwraeth a gwella hefyd yn fwyaf effeithiol pan fydd holl adrannau'r cyngor yn deall arwyddocâd y dynodiad ac yn gweithio gyda'i gilydd.

Felly argymhellir yn gryf ddull tîm datblygu sy'n cydnabod cyfraniad adrannau eraill, megis priffyrdd a thai.

6.6 Gall cynlluniau datblygu lleol gynnwys polisïau lleol penodol ar gyfer diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth. Dan amgylchiadau o'r fath dylai'r cynllun datblygu lleol ei gwneud yn glir y bydd cynigion datblygu yn cael eu dyfarnu yn erbyn eu heffaith ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth fel y nodwyd yn y ddogfen werthuso a'r cynllun rheoli. Gallai cynigion datblygu penodol mewn ardal gadwraeth, yn cynnwys darparu un neu fwy o anheddau, darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr a greir gan y datblygu yn 100 metr sgwâr neu fwy, ei gwneud yn ofynnol cyflwyno datganiad dylunio a mynediad.

6.7 Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys canol masnachol trefi a phentrefi. Yn gyffredinol bydd pwyslais ar reoli newid mewn modd cadarnhaol ac wedi'i reoli, sy'n annog bywiogrwydd economaidd a hyfywedd cymdeithasol a diwylliannol ac sy'n cyd-fynd â rhinweddau pensaernïol a hanesyddol arbennig yr ardal. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys safleoedd neu adeiladau nad ydynt yn gwneud unrhyw gyfraniad cadarnhaol i, neu'n wir eu bod yn tynnu oddi wrth gymeriad neu olwg yr ardal; dylai eu hadnewyddu ysgogi dylunio llawn dychymyg, ansawdd uchel a chyfle i wella a chyfoethogi'r ardal.

6.8 Un o ddibenion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i ymddangosiad yr amgylchedd. Mae'n rhesymol disgwyl bod dyletswydd awdurdod cynllunio lleol i dalu sylw arbennig i'r dymuniad i gadw neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth yn arwain, yn ymarferol, ar safonau mwy manwl wrth i'r awdurdod ystyried p'un ai i roi caniatâd i hysbyseb arfaethedig mewn ardal o'r fath.

6.9 Mae'n bwysig i awdurdodau cynllunio lleol fod yn hyblyg mewn ardaloedd cadwraeth wrth ddefnyddio eu pwerau dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, oherwydd bod llawer o ardaloedd yn cynnwys eiddo manwerthu a masnachol sy'n amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus. Mae hysbysebu y tu allan yn hanfodol ar gyfer gweithgareddau masnachol a llwyddiant busnesau lleol ac yn arferol bydd yn cynorthwyo perchnogion a thenantiaid eiddo masnachol i gynnal adeiladau mewn cyflwr da a'u bod yn edrych yn ddeniadol.

6.10 Mae Caniatâd Ardal Gadwraeth yn ofynnol ar gyfer dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth, er bod rhai eithriadau. Yn y cyd-destun hwn, mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod dymchwel yn golygu tynnu adeilad i lawr fel ei fod yn cael ei ddinistrio yn llwyr neu i raddau arwyddocaol iawn o leiaf. Felly gallai gwaredu adeilad cyfan ac eithrio ei ffasad gael ei gyfri fel dymchwel.

6.11 Gallai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd nad yw Caniatâd Ardal Gadwraeth yn ofynnol ar gyfer adeiladau o ddisgrifiad penodol ac mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd nad yw caniatâd Ardal Gadwraeth yn ofynnol ar gyfer rhai gweithiau penodol. Mae'r gweithiau hyn yn cynnwys dymchwel adeilad gyda chyfanswm ciwbig heb fod yn fwy na 115 metr ciwbig a dymchwel nodwedd terfyn adeiledig sy'n llai na metr o uchder lle mae nesaf at briffordd, dyfrffordd neu fan agored, neu'n llai na 2 fetr o uchder mewn achos arall. Golyga hyn na fydd llawer o waith sy'n cynnwys dinistrio ffabrig rhan o adeilad yn waith dymchwel ac ni fydd yn ofynnol cael caniatâd ardal gadwraeth.

6.12 Dylid cyflwyno cais am ganiatâd i ddycmwel i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydda ceisiadau am Ganiatâd Ardal Gadwraeth angen datganiad o'r effaith ar dreftadaeth, a ddylai esbonio pam bod dymchwel yn ddymunol neu'n angenrheidiol ochr yn ochr ag asesiad ehangach o effaith y cynigion ar gymeriad neu olwg yr ardal.

6.13 Dylid cael rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad neu olwg ardal gadwraeth. Dylai cynigion i ddymchwel adeiladau o'r fath gael eu hasesu yn erbyn yr un meini prawf eang â chynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig (gweler 5.15). Mewn achosion lle'r ystyrir nad yw'r adeilad yn gwneud cyfraniad neu fawr ddim cyfraniad, yn arferol bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol gael gwybodaeth lawn am y cynigion arfaethedig ar gyfer y safle yn dilyn dymchwel. Ni ddylid rhoi caniatâd ar gyfer dymchwel oni bai bod ailddatblygu ei hun yn annymunol. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleo yr hawl i ystyried egwyddorion eang datblygiad arfaethedig, megis ei raddfa, maint a màs, wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.

6.14 Gallai fod yn briodol rhoi amod wrth roi caniatâd i ddymchwil fel nad yw'n digwydd nes rhoir caniatâd cynllunio llawn ac y llofnodwyd cytundeb i gynnal y gwaith datblygu.

6.15 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y pŵer i ddiogelu coed a choedtiroedd trwy lunio gorchmynion cadw coed. Yn ychwanegol, ceir darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn cadw coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n bwriadu torri, coroni neu docio coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol. Yn ystod y cyfnod hwnnw caiff yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu p'un ai i warchod y goeden trwy orchymyn cadw coed ai peidio.

6.16 Wrth ystyried p'un ai i ehangu gwarchodaeth i goed mewn ardaloedd cadwraeth, dylai awurdodau cynllunio lleol ystyried cyfraniad gweledol, hanesyddol ac amwynder y coed. Mewn rhai achosion gallai plannu newydd neu ailblannu fod yn ddymunol lle byddai hyn yn cyd-fynd â chymeriad neu olwg yr ardal.

6.17 Mae gan orfodaeth rôl allweddol wrth warchod ardaloedd cadwraeth a dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried dull mwy rhagweithiol, yn cynnwys monitro gweithgarwch datblygu a sicrhau cydymffurfio ag amodau a thelerau'r mesurau rheoli rheoleiddiol, yn hytrach nag ymchwilio yn unig pan gyflwynir cwyn ffurfiol. Bydd dull cadarnhaol a gweithredol o ran gorfodaeth yn cynorthwyo i leihau nifer yr achosion o dorri'r rheolau ac yn sicrhau gwelliannau cynaliadwy o ran ansawdd amgylcheddol.

6.18 Mae gan ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol neu fethiant yr awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad ynghylch caniatâd ardal gadwraeth. Gellir cyflwyno apêl mewn amgylchiadau sy'n cynnwys y canlynol: Lle bo awdurdod cynllunio lleol yn: Gwrthod cais am ganiatâd ardal gadwraeth; yn rhoi caniatâd ardal gadwraeth sy'n ddarostyngedig i amodau; gwrthod cais i amrywio neu ollwg amodau'n gysylltiedig â chaniatâd ardal gadwraeth; gwrthod cais am gymeradwyaeth sy'n ofynnol gan amod a gynhwyswyd pan roddwyd caniatâd ardal gadwraeth; neu methu â gwneud penderfyniad ynghylch cais am ganiatâd cyn pen wyth wythnos o'i ddilysu gan yr awdurdod cynllunio lleol.

6.19 Rhaid cyflwyno apêl i Weinidogion Cymru ar ffurflen benodol cyn pen chwe mis i'r ymgeisydd gael ei hysbysu am benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol.

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn nodi'r cyd-destun polisi a'r dyletswyddau ar awdurdodau cynllunio lleol i ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol arfer da o ran eu dynodi a'u gwerthuso, yn cynnwys sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisïau lleol ar gyfer rheoli a gwella cadarnhaol fel bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu cadw a'u gwella. Dylai hefyd gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i ystyried Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheolaeth Gynaliadwy yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru (Egwyddorion Cadwraeth) er mwyn cyflawni newid sensitif o ansawdd uchel.

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants